# ASESIAD POBLOGAETH CWM TAF

**Mawrth 2017**

## BETH YW ASESIAD POBLOGAETH?

Mae'r adroddiad hwn y rhan o Asesiad Poblogaeth cyntaf Cwm Taf. Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon wedi'i chasglu a'i dadansoddi gyda chymorth y bobl sy'n adnabod ein cymunedau orau - y rheini sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal a chymorth ac yn defnyddio'r gwasanaethau hynny ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf (yr ardal sy'n aml yn cael ei hadnabod fel Cwm Taf).

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn dwyn ynghyd, am y tro cyntaf, bob rhan o wasanaethau gofal a chymorth a'r ffordd y cânt eu darparu. Mae'r Ddeddf yn rhoi 'dyletswydd' ar Gyngor Rhondda Cynon Taf, Cyngor Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a'u partneriaid (yn cynnwys y sector gwirfoddol) i ystyried 'llesiant' cyffredinol y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a'r gofalwyr sy'n eu cynorthwyo. Mae'r Ddeddf yn nodi'r ffyrdd penodol y mae'n rhaid i'r sefydliadau hyn gyflwyno newidiadau.

Fel rhan o'r Ddeddf, rhaid i Awdurdodau Lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gynnal asesiad ar y cyd o anghenion ein poblogaeth am ofal a chymorth ac anghenion gofalwyr. Rhaid asesu hefyd yr amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau sydd eu hangen yn ogystal â'r amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau ataliol, yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae uwch swyddogion o'r sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus lleol sy'n gyfrifol am y Ddeddf yn dod at ei gilydd mewn grŵp o'r enw Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf. Cyfrifoldeb y Bwrdd hwn yw sicrhau bod yr Asesiad Poblogaeth hwn yn cael ei gynnal a gweithredu ar y canfyddiadau i gyflwyno unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Diben yr Asesiad hwn yw helpu gwasanaethau cyhoeddus a'u partneriaid i ddeall mwy am anghenion a gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghwm Taf, yr hyn sydd gennym yn barod, yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r hyn mae angen i ni ei wella. Bydd yn ein helpu ni i wneud penderfyniadau gwell yn ogystal â chynllunio a darparu gwasanaethau yn fwy effeithiol gyda'n gilydd yn y dyfodol. Bydd angen i ni ddatblygu cynllun (sef Cynllun Ardal Leol), sy'n nodi'r meysydd gwaith rydym yn bwriadu eu cynnal yn y dyfodol a'r gwasanaethau mae angen i ni eu datblygu i'n helpu i ddiwallu

anghenion gofal a chymorth pobl yng Nghwm Taf. Bydd angen i'r Cynllun Ardal ystyried sut gallai fod angen i ni ad-drefnu ein systemau a'n prosesau, pa fathau o wasanaethau sydd eu hangen arnom a ble ddylid eu darparu, pwy ddylai eu darparu, sut i greu/newid gwasanaethau a sut i wario arian yn effeithiol i gael yr effaith orau/canlyniadau gorau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Bydd y Cynllun Ardal Leol yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2018.

Er mwyn gwybod beth yw'r blaenoriaethau o ran gwella llesiant pobl yng Nghwm Taf a diwallu eu hanghenion am ofal a chymorth (drwy ddylunio a chyflwyno gwasanaethau yn y ffordd orau), yn gyntaf mae'n rhaid i ni wybod:

- Pa lefel o ofal a chymorth sydd ei angen;
- Ble mae'r bylchau a sut i'w llenwi; a
- Sut mae angen i wasanaethau newid er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn darparu'r lefel honno o wasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol.

Rydym ni hefyd angen gwybod beth sy'n cyfrif fel llesiant 'da' a beth yw nodweddion gwasanaethau da ym marn pobl Cwm Taf.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys trosolwg o'r brif wybodaeth yn ymwneud â chategorïau penodol o ofal a chymorth. Categorïau'r Asesiad Poblogaeth yw: gofalwyr, plant a phobl ifanc, anabledd dysgu, iechyd meddwl, pobl hŷn, anabledd corfforol, nam ar y synhwyrau a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r brif wybodaeth yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu drwy'r prosiect Deall ein Cymunedau, lle buom yn siarad â phobl sy'n byw a gweithio yng Nghwm Taf, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus, grwpiau cymunedol ac unrhyw un arall oedd am ddweud ei ddweud. Cafodd y wybodaeth hon ei dadansoddi i ganfod pethau cyffredin roedd pobl yn eu hystyried yn bwysig neu'n awyddus i'w trafod. Rydym ni wedi defnyddio data, ystadegau a gwybodaeth ymchwil hefyd i'n helpu i greu darlun o anghenion gofal a chymorth pobl Cwm Taf.


Ynghyd â'r canfyddiadau ar gyfer y categorïau gwahanol, mae'r Asesiad hyn yn nodi 'themâu trosfwaol' hefyd. Y themâu trosfwaol hyn yw'r pethau sy'n perthyn i fwy nag un categori ac a fydd yn effeithio ar sut dylai gwasanaethau cymdeithasol diwallu anghenion gofal a chymorth pobl yng Nghwm Taf yn y dyfodol.

Gallwn ddefnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu yn yr Asesiad hwn i feddwl am sut rydym ni'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth ac, yn bwysicach, sut gallwn ni

weithio gyda'n gilydd yn well i sicrhau bod ein gwasanaethau yn gwneud y gorau i'n hunigolion a'n cymunedau.

## SUT I DDEFNYDDIO'R DDOGFEN HON

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys prif wybodaeth Asesiad Poblogaeth Cwm Taf.




Mae'r triongl yn dangos y gwahanol rannau o'n gwaith sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Adroddiad Asesu Cwm Taf. Mae pob lefel o'r Asesiad hwn yn cael ei chefnogi gan lefel fwy manwl o ddata a gwybodaeth, sy'n cael eu cadw mewn llyfrgell dechnegol y gallwch bori drwyddi. Gallwch hefyd glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon (y geiriau sydd wedi'u tanlinellu ac yn las), a fydd yn eich tywys i ddogfennau neu wefannau cysylltiedig eraill. Mae'r Adroddiad Asesu wedi'i roi at ei gilydd fel hyn fel y gall pob darllenydd archwilio'r wybodaeth rydym wedi'i chasglu a'i dadansoddi mor fanwl ag y dymunant a chanolbwyntio ar unrhyw feysydd o ddiddordeb penodol.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg a blas o'r hyn rydym wedi ei ganfod ac yn cyfeirio pobl at elfennau eraill manylach o'n hasesiad. Mae'n cynnwys y brif wybodaeth, ond mae modd meithrin dealltwriaeth well drwy ddefnyddio'r gwahanol elfennau.

Os hoffech ddysgu mwy am y brif wybodaeth yn y ddogfen hon, gallwch ddilyn y dolenni i'r unigol:

- Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau
- Anableddau Dysgu
- Gofalwyr
- Iechyd Meddwl
- Plant a Phobl Ifanc
- Pobl Hŷn
- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thais Rhywiol

Mae'r dogfennau briffio yn edrych yn fanylach ar y wybodaeth y mae'r penawdau'n seiliedig arni, yn cynnwys ystadegau a barn pobl sydd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth. Mae'r holl wybodaeth a ddefnyddiwyd i lywio cynnwys yr Asesiad ar gael yn y dogfennau briffio a'r llyfrgell.

## BETH SY'N WAHANOL AM DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU)?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn nodi sut mae angen i wasanaethau cyhoeddus a'u partneriaid newid eu dull o ofalu am bobl a'u cynorthwyo. Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar bedair egwyddor. Os yw sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn ystyried y rhain yn eu gwaith, byddwn yn gallu cyflawni ein dyletswydd:

- Mae'r Ddeddf yn helpu i sicrhau **llesiant** y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt.
- Mae'r system newydd yn canolbwyntio ar **bobl** – ac yn rhoi llais cryf iddynt yn y penderfyniadau a wneir am y cymorth a gânt
- Caiff gwasanaethau eu darparu drwy **bartneriaethau** a drwy gydweithredu
- Bydd gwasanaethau'n ceisio **atal** anghenion rhag cynyddu a bydd y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn.

Mae llawer o newidiadau eisoes yn cael eu gwneud yng Nghwm Taf i ymateb i'r Ddeddf. Mae gofynion y Ddeddf a chanlyniadau'r Asesiad hwn yn cadarnhau i raddau helaeth llawer o'r hyn y mae ein gwasanaethau cyhoeddus eisoes wedi bod yn meddwl amdano a'r gwaith rydym wedi dechrau ei wneud gyda'n gilydd. Mae hyn yn cynnwys nodi lle mae'r bylchau, neu beth sydd angen i ni ei wneud nesaf, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym yn well.

Mae'r Ddeddf yn *'drawsnewidiol'*. Mae hyn yn golygu y bydd yn newid y ffordd mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu dylunio a'u cyflwyno yn y dyfodol. Bydd y gwahaniaeth yn golygu y bydd gwasanaethau'n canolbwyntio ar wella bywydau'r bobl sy'n eu defnyddio, drwy roi mwy o reolaeth i'r bobl hynny dros sut maen nhw'n defnyddio gwasanaethau a gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cael eu trefnu i gefnogi'r pethau sydd eisoes yn gweithio'n dda i bobl.

Bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio'n agosach hefyd, a hynny mewn ffyrdd gwell er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ganddynt yn cael eu defnyddio i'r eithaf ac er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael gofal a chymorth pan maent ei angen, ble maent ei angen a sut maent ei angen. Mae'r Ddeddf hefyd yn dweud bod rhaid i

wasanaethau cyhoeddus geisio atal problemau rhag digwydd a mynd i'r afael ag anghenion gofal a chymorth yn gynt.

At ddibenion y Ddeddf, mae Llywodraeth Cymru wedi siarad â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a phobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hyn am lesiant ac wedi ysgrifennu Datganiad Llesiant, sy'n disgrifio rhai o'r pethau sy'n effeithio ar ein llesiant:

- Bod gennych eich hawliau
- Eich bod yn hapus yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol
- Eich bod yn cael eich diogelu rhag cael eich cam-drin, eich niweidio a'ch esgeuluso
- Eich bod yn cael addysg a hyfforddiant ac yn cael cyfle i chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon
- Bod gennych berthynas dda â'ch teulu a'ch ffrindiau
- Eich bod yn rhan o'r gymuned
- Bod gennych fywyd cymdeithasol a digon o arian i fyw'n iach
- Bod gennych gartref da


Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai ffyrdd i fesur yr agweddau hyn ar lesiant. Dangosyddion llesiant yw'r enw ar y rhain a'r syniad yw os yw pobl yn cytuno â'r gosodiadau am y ffordd maent yn byw ac yn teimlo, gellir ystyried bod eu llesiant yn 'dda'. Mae llesiant yn beth anodd ei fesur mewn gwirionedd ac felly mae'n bwysig iawn ein bod ni'n edrych ar y pethau sy'n cyfrannu at lesiant (pwy ydym ni, sut rydym yn teimlo, ble rydym yn byw, ble rydym yn mynd a beth rydym yn ei wneud neu eisiau ei wneud neu ei gyflawni) ar gyfer pob unigolyn rydym yn gweithio gydag ef er mwyn helpu i ddeall ei angen am wasanaethau.

Mae'r pedair adran isod yn disgrifio agweddau pwysig ar y Ddeddf rydym wedi'u hystyried wrth i ni ddatblygu ein Hasesiad a llunio ein canfyddiadau a dadansoddiad:

## Llesiant

Rydym ni eisoes wedi siarad am lesiant fel un o egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ond llesiant yw ffocws yn un o ddeddfau eraill pwysig Llywodraeth Cymru hefyd, sef [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.]

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant pobl a chymunedau Cymru, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'n rhoi dyletswydd ar wasanaethau cyhoeddus i gyfrannu'n lleol at saith nod llesiant cenedlaethol:




Y pum ffordd benodol y mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus weithio i wneud hyn yw:

- Meddwl ar yr hirdymor;
- Ceisio atal problemau;
- Ceisio cyfrannu at saith Nod Llesiant y Ddeddf a nodau eu sefydliad nhw a sefydliadau eraill;
- Cydweithio'n well; a
- Gweithio'n well gyda phobl a chymunedau.

Fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gwasanaethau wedi cwblhau Asesiad Llesiant sy'n edrych ar bedair thema sef llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae hyn wedi ein helpu i ddeall beth yw hanfodion llesiant yng Nghwm Taf. Yn aml, mae'r pethau sy'n bwysig i *bawb* am eu llesiant yn


bethau sy'n bwysig i bobl ag anghenion gofal a chymorth. Mae'n bwysig cofio bod llesiant yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol ar adegau gwahanol yn eu bywydau.

Yr hyn sydd gennym, felly, yw dau ddarn o ddeddfwriaeth bwysig iawn yng Nghymru, sydd ill dau yn canolbwyntio ar lesiant mewn ffyrdd gwahanol ond y mae'n rhaid eu hystyried gyda'i gilydd yn hytrach na fel dau beth cwbl ar wahân a digyswllt. Yng Nghwm Taf, mae'r ddau ddarn pwysig hwn o waith wedi'u gwneud gan yr un criw o swyddogion. Rydym ni wedi bod yn edrych ar ddata a gwybodaeth ac yn siarad â phobl, i gasglu gwybodaeth a safbwyntiau. Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod penawdau'r ddau asesiad, gyda'i gilydd, yn creu darlun *llawn* i'n helpu i gynllunio beth i'w wneud nesaf. Mae llawr o bolisïau a strategaethau cenedlaethol a lleol eraill wedi cael eu hystyried wrth ysgrifennu'r ddau Asesiad hefyd, yn cynnwys safbwyntiau Comisiynwyr annibynnol Cymru. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac mae'r Asesiadau'n rhoi man cychwyn i ni osod blaenoriaethau a chynllunio ar gyfer dyfodol ein gwasanaethau.

Mae pobl wedi ceisio diffinio llesiant mewn ffyrdd gwahanol, ond mae'n gymhleth. Mae geiriau fel 'hapusrwydd', 'bodlonrwydd bywyd', 'perthnasoedd cadarnhaol' a 'gwireddu potensial' i gyd wedi cael eu defnyddio rhai o'r pethau sy'n cyfrannu at lesiant. Fodd bynnag, fel man cychwyn ar gyfer yr Asesiad hwn, rydym wedi defnyddio'r diffiniad canlynol,[1] sy'n dweud mai llesiant yw:

"The balance point between an individual's resource pool and the challenges they face."

Rydym yn wynebu heriau bob dydd mewn bywyd. Llesiant yw pan mae gan bobl yr adnoddau seicolegol, cymdeithasol a/neu gorfforol sydd eu hangen arnynt i ymateb i her seicolegol, gymdeithasol a/neu gorfforol benodol. Pan mae gan bobl mwy o heriau nag adnoddau, mae'r fantolen yn troi, ac mae eu llesiant yn gostwng.




[1] Dodge R, Daly A, Huyton J a Saunders L. (2012) The challenge of defining wellbeing, International Journal of Wellbeing, 2 (3), 22-235 (saesneg yn unig)

Gellir cymhwyso'r diffiniad hwn i bob unigolyn, beth bynnag fo'i oed, rhyw neu ddiwylliant. Y syniad yw bod gan bob unigolyn ei gronfa o adnoddau sy'n effeithio ar sut mae'n ymdopi'n bersonol â heriau a chael profiad o lesiant. Mae hefyd yn optimistaidd ac yn dangos sut mae pobl yn gallu defnyddio eu hadnoddau i gymryd rheolaeth o'u bywydau pan fydd y fantol yn troi.

## Pobl

Mae Cwm Taf yn cynnwys dwy ardal awdurdod lleol; Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae yna 295,865 o bobl yn byw yng Nghwm Taf; mae 20% o'r boblogaeth yn byw ym Merthyr Tudful ac 80% yn byw yn Rhondda Cynon Taf. Mae mwy o bobl yn byw yma nag mewn mannau eraill o'r un maint yng Nghymru, ond nid oes disgwyl i'n poblogaeth dyfu cymaint ag ardaloedd eraill yn yr ugain mlynedd nesaf. Erbyn 2039 mae disgwyl i'n poblogaeth gynyddu i 304,543.

***Tabl 1: Rhagfynegiad Poblogaeth (2039)***

| | Amcangyfrif o'r boblogaeth 2014 | Poblogaeth ragamcanol yn 2039 (ar sail amcangyfrif 2014) | Amrywiad amcangyfrifedig yn y boblogaeth ragamcanol rhwng 2014 a 2039 (+/-) | Canran amcangyfrifedig yr amrywiad yn y boblogaeth ragamcanol rhwng 2014 a 2039 (+/-) |
|---|---|---|---|---|
| Merthyr Tudful | 59,065 | 58,062 | -1,003 | -1.7 |
| Rhondda Cynon Taf | 236,888 | 246,481 | +9,593 | +4.0 |
| Cwm Taf | 295,865 | 304,543 | +8,678 | +2.9 |

Ffynhonnell: StatsCymru

Erbyn 2036 mae disgwyl i'n poblogaeth gynyddu i 297,000. Erbyn 2036 bydd cyfanswm ein poblogaeth 64 oed ac iau yn gostwng ond bydd y nifer 65 oed a hŷn yn tyfu'n sylweddol, gyda'r cynnydd mwyaf yn y nifer sy'n 85 oed a hŷn. Bydd gan hyn oblygiadau sylweddol i unigolion, y cymunedau lle maent yn byw a'r ffyrdd y caiff gwasanaethau eu darparu i ddiwallu eu hanghenion.

Hanfod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw newid ffocws gwasanaethau gofal a chymorth, meddwl am yr hyn sy'n gweithio'n dda a deall yng ngwir ystyr y gair beth allai fod angen ei newid. Mae'r ffordd y mae'n rhaid i

wasanaethau cyhoeddus weithio o dan y Ddeddf yn golygu bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar sicrhau bod y system newydd a'r hyn rydym yn ei wneud yn canolbwyntio ar bobl.

Trwy gynnwys pobl a chymunedau yn eu gwasanaethau gofal a chymorth, gall gwasanaethau cyhoeddus wneud yn siŵr bod y gwasanaethau cywir yn cael eu darparu ar yr adeg gywir yn y man cywir, o'r cychwyn cyntaf. Bydd yn sicrhau bod gwasanaethau'n fwy tebygol o allu helpu'r bobl sy'n eu defnyddio i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Trwy fod yn rhan o'u gofal a'u cymorth, rhaid i bobl gale cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau neu fod yn gyfrifol am eu trefniadau gofal a chymorth eu hunain.

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â phobl sydd eisoes yn defnyddio gwasanaethau, ond hefyd â phobl a allai fod angen defnyddio gwasanaethau yn y dyfodol. Mae llawer o waith wedi dechrau'n lleol i sicrhau bod pawb sydd eisiau cael dweud eu dweud am y gwasanaethau hyn yn gallu gwneud hynny. Mae'r bobl rydym wedi siarad â nhw eisoes yn cynrychioli llawer o leisiau yn ein cymunedau. Mae'n bwysig iawn sicrhau bod yn hyn yn parhau. Rydym wedi siarad â phobl o wahanol ryw, oedran a chenedligrwydd, er enghraifft. Wrth i ni barhau gyda'r gwaith hwn, bydd angen i ni wneud yn siŵr bod *pawb* sydd eisiau'r cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth hon yn cael cyfle i wneud hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol.

Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yn rhan o boblogaeth Cwm Taf hefyd. Gwyddom fod angen i ni gynnwys y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau, ond mae gan lawer o bobl eraill gyfraniad i'w wneud hefyd. Mae'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau gofal a chymorth yn rhan o gymuned. Gall cymuned olygu'r ardal lle maent yn byw. Mae cymuned yn gallu golygu teulu, grŵp cymdeithasol neu bobl ag anghenion gofal a chymorth tebyg hefyd.

Mae angen i ni gymryd yr hyn rydym wedi'i ddysgu drwy'r Asesiad hwn a'i gymhwyso i wahanol unigolion a chymunedau wrth gynllunio a chyflawni gwaith y dyfodol. Byddwn yn gallu defnyddio'r Asesiad hwn i fynd ati i weithio mewn mannau penodol gyda dealltwriaeth dda o'r hyn sy'n bwysig i bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth a sut gallem wella gwasanaethau yno. Mae gwaith eisoes ar waith yng Nghwm Taf yn edrych ar sut gallem wneud hyn.

## Partneriaethau

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngor Rhondda Cynon Taf, Cyngor Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a'u partneriaid (yn cynnwys y sector

gwirfoddol) gydweithio mewn ffordd fwy ‘cydgysylltiedig’ nag y maent wedi yn y gorffennol. Trwy wneud yn siŵr bod sefydliadau’r sector cyhoeddus yng Nghwm Taf yn gweithio gyda’i gilydd, gallwn wneud defnydd gwell o’n hadnoddau, o ran y staff a gyflogwn a’r arian a ddefnyddiwn i brynu gwasanaethau gan sefydliadau eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar adegau pan nad oes gennym gymaint o arian i wario ag a oedd gennym yn y gorffennol o bosibl.

Nid yw hyn yn ffordd gwbl *newydd* o weithio, ond gellir ei gwneud hyd yn oed yn fwy effeithiol drwy weithio’n agosach gyda’n defnyddwyr gwasanaethau a’n trigolion hefyd. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio termau fel ‘newid diwylliant’ (sy’n golygu newid y ffordd rydym yn gwneud pethau), ‘gweithio seiliedig ar gryfderau’ (sy’n golygu defnyddio’r hyn sydd gennym yn barod ac rydym yn gwybod sy’n dda), ‘cyd-gynhyrchu’ (sy’n golygu gweithio a phenderfynu pethau ar y cyd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a’r cyhoedd), ac ‘integreiddio’ (sy’n golygu cyfuno gwasanaethau) wrth siarad am y ffordd hon o weithio. Er bod y pethau rydym yn siarad amdanynt yn gymhleth ac ni fydd modd eu cyflawni dros nos, ffordd symlach o feddwl amdanynt yw gweithio gyda’n gilydd yn well i ddefnyddio’r hyn sydd gennym i wneud yn siŵr bod ein gwasanaethau’n gwneud mwy o wahaniaeth i’r bobl sy’n eu defnyddio.

## Atal

Mae atal yn golygu stopio problemau cyn iddynt ddechrau, neu stopio problemau rhag gwaethygu. Mae’r Ddeddf yn dweud y dylai gwasanaethau cyhoeddus drefnu’r gwasanaethau cywir yn gwneud y peth iawn i wneud atal yn bosibl ac yn effeithiol. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth i sut mae’r arian yn cael ei wario a sut mae adnoddau yn cael eu targedu at bobl, lleoedd neu broblemau penodol. Mae angen i wasanaethau cyhoeddus wneud penderfyniadau ar y cyd am wasanaethau.

Yn y gorffennol, mae ein gwasanaethau wedi ymateb i broblemau ar ôl iddynt gychwyn, neu maent yn helpu pobl sydd mewn argyfwng. Os gallwn weithredu yn gynharach a symud yn gyflym cyn i bethau waethygu, gallwn helpu pobl i fyw bywydau gwell heb broblemau, neu heb i’w problemau gael effaith enfawr ar eu llesiant.

Mae angen i wasanaethau cyhoeddus edrych ar ffyrdd o gynorthwyo gwasanaethau ataliol nad ydynt wedi manteisio i’r eithaf arnynt yn y gorffennol o bosibl, fel defnyddio mentrau cymdeithasol (busnes neu weithgaredd cymunedol lle mae’r elw’n mynd yn ôl i’r gymuned).

Unwaith mae pobl yn dechrau defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, mae'n bwysig eu bod yn cael cymorth i beidio â dod yn ddibynnol arnynt. Enw cyffredin ar hyn yw 'ail-alluogi' ac mae'n golygu cynorthwyo pobl i gymryd rhywfaint o reolaeth dros eu hanghenion gofal a chymorth a chaniatáu i wasanaethau gymryd cam yn ôl. Mae gwasanaethau ail-alluogi da yn cynnwys nid yn unig wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector statudol ond hefyd amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir yn y gymuned a gan y gymuned drwy grwpiau gwirfoddol a chymunedol.

## CATEGORÏAU GOFAL A CHYMORTH

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gofyn i ni edrych ar anghenion gofal a chymorth y grwpiau canlynol o bobl yn benodol:

- Gofalwyr;
- Plant a phobl ifanc;
- Pobl ag anableddau dysgu;
- Pobl â phroblemau/salwch iechyd meddwl;
- Pobl hŷn;
- Pobl ag anableddau corfforol;
- Pobl â nam ar y synhwyrau; a
- Phobl sydd wedi dioddef trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir wedi'u trefnu o amgylch pob categori ar wahân fel rheol. Gan amlaf, mae gan y bobl ym mhob categori set benodol o resymau pam maent angen gofal a chymorth. Oherwydd hyn, weithiau mae yna ragdybiaeth fod y pethau sy'n bwysig i bobl mewn categori yr un fath (a bod eu hanghenion yn wahanol i'r bobl yn y categorïau eraill).

Nid yw hyn bob amser yn wir ac, ar y cyfan, mae anghenion pobl yn gorgyffwrdd; er enghraifft, gall person hŷn ddioddef o ddementia, felly byddai'r unigolyn hwn yn perthyn i'r categori salwch iechyd meddwl a'r categori pobl hŷn.

Mae'r Asesiad hwn yn dangos nad yw rhannu pobl i'r categorïau hyn bob amser yn ein helpu i ddeall anghenion pobl a'u teuluoedd a pha ofal a chymorth y gallent fod ei angen. Wedi dweud hynny, mae'r Asesiad wedi'i gynnal yn unol â gofynion y

Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sy'n nodi bod rhaid edrych ar anghenion gofal a chymorth yng Nghwm Taf o dan y categorïau hyn.

Isod mae crynodeb o bob un o'r dogfennau briffio. Fodd bynnag, o siarad â phobl yng Nghwm Taf a dadansoddi data, gwelwyd bod llawer o'r wybodaeth bwysig am sut gallem eu sut dylem weithio yn y dyfodol yr un fath ar draws categorïau. Ychydig iawn o bethau sy'n bwysig ym marn pobl oedd yn ymwneud â'u hanghenion penodol nhw yn unig. Atgoffodd pobl ni i edrych ar y person cyfan ac nid dim ond un broblem arbennig maent yn ei hwynebu. Mae'r pethau sy'n bwysig i ofalwyr, er enghraifft, yr un fath yn fras â'r pethau sy'n bwysig i bobl hŷn, neu bobl ag anabledd dysgu. Felly, yn hwyrach yn y ddogfen hon, rydym wedi tynnu sylw at y materion cyffredin hyn, sef themâu trosfwaol.

## BLE YDYM NI NAWR?

Nawr rydym yn mynd i fwrw golwg ar y prif benawdau sy'n deillio o'r Asesiad Poblogaeth hwn, mewn perthynas â phob categori.

**Gofalwyr**

*Gallwch ddarllen mwy am anghenion gofal a chymorth gofalwyr yng Nghwm Taf yn y Ddogfen Briffio Gofalwyr, yn cynnwys y data ystadegol rydym wedi'i ddadansoddi, beth mae gofalwyr wedi ei ddweud wrthym a rhai enghreifftiau o'r gwaith mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud yn y maes hwn ar hyn o bryd.*

Gofalwr yw unrhyw un, o unrhyw oedran, sy'n helpu rhywun arall gyda'u bywyd o ddydd i ddydd, er enghraifft, oherwydd ei fod yn sâl, yn eiddil neu am fod ganddo anabledd ond sy'n gwneud hynny'n ddi-dâl (ar wahân i lwfansau gofalwyr). Mae hyn yn cynnwys plant sy'n gofalu am riant, rhieni sy'n gofalu am blentyn anabl ac oedolion sy'n gofalu am oedolion eraill. Mae hyn yn aml yn cael ei alw'n "gofalu anffurfiol" (i wahaniaethu rhwng hyn a'r gofal a ddarperir gan wasanaethau cyhoeddus neu ddarparwyr preifat). Mae gofalwyr anffurfiol yn bwysig iawn i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y rheini maent yn gofalu amdanynt a rhaid iddynt gael cymorth gyda'u rôl gofalu fel nad yw eu hiechyd a'u llesiant nhw yn dioddef ac nad yw eu hanghenion nhw'n cael eu hanwybyddu.

Mae bron i 13% o'r boblogaeth, bron i 40,000 o bobl, yn ofalwyr yng Nghwm Taf, ond mae'n siŵr bod yna lawer rhagor o bobl na fyddai'n galw eu hunain yn ofalwyr, gan eu bod nhw ond yn ystyried eu hunain yn rhiant, gŵr, gwraig, partner, plentyn, ffrind neu gymydog.

Gan fod mwy o iechyd corfforol gwael, anableddau a phobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl yng Nghwm Taf nag yng ngweddill Cymru, mae mwy o angen am help gan ofalwyr anffurfiol, fel teulu a ffrindiau. Mae ein poblogaeth yn heneiddio ac yn byw'n hirach ac mae hyn hefyd yn effeithio ar nifer y bobl a fydd angen gofal a chymorth o ryw fath.

Er ei bod hi'n beth da bod mwy o bobl yn byw'n hirach yng Nghwm Taf, mae angen i ni sicrhau bod y bobl sy'n heneiddio yn parhau i fwynhau llesiant da ac yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae mwy a mwy o bobl hŷn yn gofalu am bobl hŷn eto, neu am fwy nag un person (yn gofalu am bartner a rhiant o bosibl). Mae mwyafrif y gofalwyr yng Nghwm Taf dros eu hanner cant a gwyddom fod nifer y gofalwyr dros chwe deg pump oed yn cynyddu'n gyflymach na nifer y gofalwyr mewn grwpiau oedran eraill.

Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n meddwl am bob gofalwr unigol a beth sydd ei angen *arno ef/arni hi*. Bydd y materion sy'n gysylltiedig â gofalu yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y gofalwr ac anghenion y sawl mae'n gofalu amdano. Dangosodd ein gwaith ymgysylltu a'n dadansoddiad data er bod gan ofalwyr lawer o bryderon yn gyffredin, er enghraifft, eisiau pobl i wrando arnynt neu sut mae dod o hyd i wybodaeth neu gymorth, mae natur eu hamgylchiadau penodol a rhai'r sawl maent yn gofalu amdano yn golygu "nad yw un maint yn addas i bawb." Bydd sut rydym yn ymateb i anghenion gofalwr ifanc, sy'n cynorthwyo rhiant a brodyr/chwiorydd ar yr un pryd â cheisio parhau â'i addysg neu gael amser i fynd allan a chael hwyl, yn wahanol iawn i'r cymorth sydd ei angen ar berson hŷn sy'n gofalu am ei briod neu bartner sydd hefyd yn hen neu'n dioddef o ddementia, neu anghenion rhiant sy'n gofalu am blentyn ag anableddau.

Os ydym am ddiwallu eu hanghenion, yn gyntaf mae'n rhaid i ni adnabod gofalwyr o bob oedran, gan godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd a gydag ein staff ynghylch pwy sy'n ofalwyr a beth maent yn ei wneud. Er enghraifft, dywedodd gofalwyr ifanc wrthym er bod gofalu'n gyfrifoldeb mawr ar eu hysgwyddau, roeddent hefyd yn teimlo'n falch o'r hyn roeddent yn ei wneud a pha mor agos oeddent i aelodau'r teulu. Fodd bynnag, roeddent eisiau i fwy o bobl yn eu hysgolion ac yn eu cymunedau i ddeall sut fywyd oedd ganddynt o ddydd i ddydd.

Yng Nghwm Taf, mae gwasanaethau cyhoeddus wedi datblygu Strategaeth Gofalwyr newydd. Lluniwyd y strategaeth gan y gwasanaethau allweddol sy'n cynorthwyo cynhalwyr, ar sail yr hyn oedd gan ofalwyr i'w ddweud. Yn arbennig, roedd gofalwyr am gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi am eu rôl gofalu. Er mwyn i hyn ddigwydd,

maent angen y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth cywir, ynghyd ag amrywiaeth o wasanaethau i'w helpu i gyflawni eu rôl gofalu. Mae hyn yn cynnwys cymorth i ofalu am eu hiechyd eu hunain ond mae'n ymwneud hefyd â gallu manteisio ar gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn ogystal â gallu mwynhau gweithgareddau y tu hwnt i ofalu. Mae hyn yn gallu effeithio ar eu huchelgais a'u cyfleoedd bywyd mewn rhai achosion.

Mae gofalwyr yn rhan bwysig iawn o sicrhau bod teuluoedd a chymunedau'n gallu cefnogi eu hunain, cael y gofal maent ei angen i wella eu llesiant ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu bywydau eu hunain. Fodd bynnag, rhaid i ofalwyr gael eu cefnogi llawn cymaint gan wasanaethau ataliol a gwasanaethau gofal a chymorth â'r bobl maent yn gofalu amdanynt. Gwyddom fod 32% o ofalwyr yng Nghwm Taf yn treulio cryn dipyn o amser (mwy na phum deg awr yr wythnos) yn gofalu am rywun ac mae hyn yn aml yn gallu achosi problemau gyda'u hiechyd a'u lles nhw'u hunain. Dywedodd 35% o ofalwyr yng Nghwm Taf yng nghyfrifiad 2011 fod eu hiechyd yn weddol, yn wael neu'n wael iawn. Ni ddylai gofalu am rywun arall gymryd cymaint o amser ac egni gofalwyr fel nad ydynt yn gallu byw bywyd 'cytbwys', bod eu llesiant yn cael ei effeithio'n negyddol gan eu cyfrifoldebau gofalu ac na allant barhau i gael bywyd ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu. Roedd cael hoe, neu ofal seibiant, wedi'i gynllunio ac ar frys, yn fater pwysig i'r gofalwyr y buom yn siarad â nhw.

Y neges gryfaf i ddeillio o'r Asesiad ar gyfer gofalwyr, serch hynny, oedd mai sefyllfa dda i ofalwyr yw pan rydym yn cael pethau'n iawn ar gyfer y bobl maent yn gofalu amdanynt. I sicrhau hyn, mae gwir angen i ofalwyr a darparwyr gwasanaethau yng Nghwm Taf weithio gyda'i gilydd, gan fanteisio ar wybodaeth a phrofiad y gofalwr, rhannu gwybodaeth ac arbenigedd i gysylltu gwasanaethau yn well, nid yn unig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ond mewn meysydd eraill fel tai, hamdden a thrafnidiaeth hefyd.

**Plant a phobl ifanc**

*Gallwch ddarllen mwy am anghenion gofal a chymorth plant a phobl ifanc yng Nghwm Taf yn y Ddogfen Briffio Plant a Phobl Ifanc, yn cynnwys y data ystadegol rydym wedi'i ddadansoddi, beth mae plant a phobl ifanc wedi ei ddweud wrthym a rhai enghreifftiau o'r gwaith mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud yn y maes hwn ar hyn o bryd.*

Mae yna dystiolaeth bod y mil diwrnod cyntaf o fywyd (mae hyn yn cynnwys cyn i'r plentyn cael ei eni, nes ei fod yn ddwy oed) yn cael effaith sylweddol ar weddill bywyd y plentyn. Fel yr eglurodd Cymru Well Wales, mae'r blynyddoedd hyn yn cael effaith hirdymor ar unigolion a theuluoedd. Maent yn llunio ffawd plant wrth iddynt dyfu i fyny: eu cyflawniadau addysgol, eu gallu i sicrhau incwm, eu dylanwadau ar eu plant eu hunain, a'u hiechyd pan fyddant yn hŷn.[2] Mae angen i wasanaethau cyhoeddus gydnabod y pethau penodol sy'n helpu i sicrhau bod y rheini ag anghenion gofal a chymorth yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd a'r ffyrdd gorau i'w helpu i gael y dechrau hwnnw.

Dylai gwasanaethau cyhoeddus benderfynu pa ffeithiau a ffigurau y dylid eu casglu a'u rhannu am blant yn nwy flynedd gyntaf eu bywyd. Trwy wella sut rydym yn gwneud hyn, byddwn mewn gwell sefyllfa i sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gael y gefnogaeth a'r cymorth cywir i deuluoedd ar yr adeg bwysicaf a phan mae'n gallu cael yr effaith fwyaf.

Er mwyn helpu i atal anghenion gofal a chymorth rhag datblygu yng nghamau cynnar bywydau plant, gallwn ganolbwyntio ar roi cefnogaeth a chymorth gydag ymateb i heriau magu plant. Nid yw gweithgareddau a gynhelir ledled Cwm Taf i geisio a gwneud hyn bob amser yn denu llawer o bobl. Mae'r bobl sy'n gweithio yn ein gwasanaethau o'r farn mai rheswm posibl am hyn yw bod mynychu'r dosbarthiadau hyn yn gwneud i rieni deimlo nad ydynt yn rhieni da a phe bai dosbarthiadau ar gael i bawb, byddai llai o gysylltiadau deimladau negyddol yn gysylltiedig â chymryd rhan. Mae hefyd angen i wasanaethau cyhoeddus wneud rhywfaint o waith i ddeall beth yn union sy'n gweithio yn achos cymorth i rieni. Mae cymorth arall sydd - neu sy'n cael ei ystyried ei wneud - ar gael i bawb, nid dim ond y teuluoedd mwyaf agored i niwed yn cynnwys cymorth gyda hunan-barch, perthnasoedd cadarnhaol a sgiliau bywyd.

Yng Nghwm Taf, mae gennym Ddatganiad o Fwriad Strategol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Mae'r ddogfen yn nodi sut dylai'r holl wasanaethau sy'n gofalu am blant ac yn eu cynorthwyo fod yn gweithio, i wneud yn siŵr bod plant a theuluoedd yn cael beth maent ei angen, sut maent ei angen. Mae hyn yn cynnwys eu haddysg a'u hiechyd. Mae'r gwaith a wneir o dan y Datganiad o Fwriad Strategol hwn yn golygu bod cyfle da i roi help cynnar a chymorth dwys mewn ffyrdd sy'n gydnaws â'n dull cydgysylltiedig o gyflawni ymyriadau a'r ffordd rydym yn gweithio gyda theuluoedd.

---

[2] Cymru Well Wales, First 1000 Days

Mae 'grwpiau' penodol o blant yn fwy tebygol o fod angen gwasanaethau gofal a chymorth yn eu bywydau. Maent yn cynnwys plant o deuluoedd lle mae yna anghenion gofal a chymorth eraill, plant sydd wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd a phlant ag anableddau. Mae'n bwysig cofio bod yr holl anghenion sydd gan oedolion yn gallu effeithio ar blant hefyd, yn cynnwys bod yn ofalwr, bod ag iechyd meddwl gwael neu ddioddef trais neu gamdriniaeth.

Mae rhai plant yn cael eu cam-drin yn gorfforol, yn emosiynol, neu'n rhywiol neu'n byw mewn teuluoedd lle mae'r rhieni wedi gwahanu, cam-drin sylweddau, trais domestig, neu salwch meddal. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yw enw'r rhain ac mae 47% o oedolion yng Nghymru wedi cael o leiaf un profiad o'r fath yn ystod eu plentyndod. Mae'r profiadau hyn yn achosi niwed hirdymor i iechyd sy'n parhau pan fydd y plant yn tyfu'n oedolion ac yn hŷn.

Mae un enghraifft o effaith y profiadau hyn yn ymwneud â phlant mewn angen. Mae Deddf Plant 1989 yn diffinio plentyn mewn angen fel plentyn sydd: yn annhebygol o gynnal lefel resymol o iechyd neu ddatblygiad, neu y mae ei iechyd a'u datblygiad yn debygol o gael eu niweidio'n sylweddol neu ymhellach, heb ddarparu gwasanaethau, neu sy'n anabl.

Yng Nghwm Taf, mae cyfraddau'r plant mewn angen yn gostwng, er mae'r rhain yw'r uchaf yng Nghymru o hyd. Canfu adroddiad yn 2015 mai camdriniaeth neu esgeulustod oedd wrth wraidd 60% o atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol yng Nghwm Taf. Camdriniaeth ddomestig, salwch meddwl rhiant, a rhiant yn camddefnyddio sylweddau/alcohol yw'r Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a gaiff eu cofnodi amlaf mewn perthynas â phlant mewn angen.

Os ydym am feithrin plant cryf a chadarn, gallwn gael yr effaith fwyaf os ydym yn canolbwyntio ar atal pethau rhag digwydd ac amddiffyn plant a'u teuluoedd rhag effaith y profiadau niweidiol hyn yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf o fywyd (o'r adeg cenhedlu hyd nes i'r plentyn droi'n ddwy oed).

Mae tystiolaeth yn dangos bod buddsoddi mewn rhaglenni sy'n cefnogi llesiant plant yn rhoi gwerth da am arian, gan fod rhaglenni'r blynyddoedd cynnar yn rhatach yn aml na'r gwasanaethau sydd eu hangen i ymdrin â'r problemau a achosir gan ddatblygiad gwael ymhlith plant.

Fel gyda'r holl bobl eraill rydym yn siarad amdanynt, mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r plant sydd yn defnyddio ein gwasanaethau 'yn swyddogol'. Trwy wneud yn siŵr bod plant yn cael cymorth i gymryd rheolaeth dros eu bywydau a'u llesiant, gallwn eu helpu i fyw'r bywyd gorau posibl. Os ydym yn sôn am atal problemau cyn iddynt

ddechrau neu atal problemau rhag gwaethygu, gweithio gyda phlant a'u rhieni i ymdrin â'r problemau hyn yw'r man cychwyn amlwg. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni ddarparu gwybodaeth glir a hygyrch am sut gall pobl ifanc a'u teuluoedd gael rhagor o wybodaeth am ba gymorth cynnar sydd ar gael yn eu hardal. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym nad ydynt yn gwybod sut mae mynd ati i gael gwybodaeth o'r fath - felly gwyddom fod angen i ni weithio ar hyn.

Mae plant yn dweud pethau pwysig a defnyddiol am eu hanghenion, sut maent yn helpu i ddylunio a chyflwyno gwasanaethau a bod yn rhan o'u cymunedau. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gwrando ar hyn sydd gan blant i'w ddweud ac yn ei ystyried yn ein gwaith yng ngwir ystyr y gair. Mae angen i ni feddwl am yr iaith a'r wybodaeth a ddefnyddiwn i gyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc (a sut mae'n cael ei gyflwyno, sut mae'n cael ei rannu). Mae angen i wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant ym mhob rhan o'u bywydau, yn cynnwys eu cartrefi, teuluoedd, ysgolion a chymunedau, ddod at ei gilydd i'w cefnogi mewn ffordd gydgysylltiedig.

**Anabledd dysgu**

*Gallwch ddarllen mwy am anghenion gofal a chymorth pobl ag anableddau dysgu yng Nghwm Taf yn y Ddogfen Briffio Anabledd Dysgu, yn cynnwys rhai enghreifftiau o'r gwaith mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud yn y maes hwn ar hyn o bryd.*

Mae pobl ag anabledd dysgu fel rheol yn ei chael hi'n anodd deall pethau neu ddysgu sgiliau newydd. Ni allant bob amser fyw eu bywydau heb help a chymorth pobl eraill. Mae sawl math gwahanol o anableddau dysgu a dyma enghraifft arall o sut mae angen ystyried y gofal a'r cymorth a roddwn i bob person unigol. Mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n deall yn llawn y gwahanol anableddau dysgu a allai effeithio ar bobl yng Nghwm Taf.

Mae gennym wasanaethau gwych i helpu pobl ag anableddau dysgu. Mae'r gwasanaethau hyn wedi gweithio gyda'i gilydd i lunio Datganiad o Fwriad mewn perthynas ag Anabledd Dysgu. Rydym wrthi'n ymgynghori ar y ddogfen hon gyda'r bobl a'u teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn i sicrhau ei fod yn gywir.

Mae plant ac oedolion â mân anabledd dysgu i anabledd dysgu cymedrol yn cael eu gofal gan baediatregwyr, meddygon teulu a gwasanaethau gofal sylfaenol yn bennaf. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn darparu gofal iechyd holistaidd o ansawdd uchel i'r grŵp hwn o gleientiaid.

Mae gwasanaethau Anabledd Dysgu gofal eilaidd ar gyfer oedolion yn rhanbarth Cwm Taf yn cael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg ar hyn o bryd, fel gwasanaeth rhwydwaith sydd â chysylltiad agos â gwasanaethau iechyd meddwl a gofal sylfaenol lleol. Ar hyn o bryd, fel arfer mae rhwng 75 ac 85 o gleientiaid sy'n oedolion ag anabledd dysgu cymedrol i ddifrifol yn byw mewn amrywiaeth o gartrefi bach sy'n cael eu rheoli gan Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg yng Nghwm Taf.

Dros amser, mae rhai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer anabledd dysgu wedi dod i ddisgwyl bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu mewn ffordd benodol. Gallai pobl ag anableddau dysgu fod yn fwy annibynnol ar wasanaethau cyhoeddus a bod â mwy o reolaeth dros eu bywydau. Mae rhywfaint o waith angen ei wneud i ddeall sut bydd hyn yn effeithio ar y newidiadau i rai o'n ffyrdd o weithio a sut rydym yn parhau i sicrhau bod ein gwasanaethau'n iawn.

Bydd gan rai pobl anghenion gofal a chymorth drwy'r amser, oherwydd y cyflyrau penodol sydd ganddynt (fel anhwylder ar y sbectrwm awtistig). Nid oes modd osgoi hyn ac mae'r bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth oherwydd anabledd dysgu n fwy tebygol o fod angen defnyddio ein gwasanaethau 'arbenigol' er mwyn gallu byw eu bywydau fel y dymunant.

Er bod angen dull cydgysylltiedig ar draws llawer o'n gwasanaethau, bydd bob amser y bobl hynny sydd angen math penodol o ofal a chymorth ac mae'n bwysig i ni gydnabod hyn a darparu ble mae angen i ni wneud hynny.

Y bobl sy'n gwybod orau beth maent ei angen gan wasanaethau yw'r bobl sy'n eu defnyddio, yn gofalu am bobl sy'n eu defnyddio ac yn gweithio yn y gwasanaethau. Mae'n bwysig iawn eu bod yn cael dweud eu dweud. Mae llawer o bobl ag anabledd dysgu eisiau'r un pethau â phobl heb anabledd dysgu; bod yn annibynnol, cael rheolaeth dros eu bywydau a'u hanghenion a bod yn rhan o'u cymuned.

**Iechyd meddwl**

*Gallwch ddarllen mwy am bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth o ganlyniad i broblemau/salwch iechyd meddwl yng Nghwm Taf yn y [Ddogfen Briffio Iechyd Meddwl](), yn cynnwys rhai enghreifftiau o'r gwaith mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud yn y maes hwn ar hyn o bryd.*

Mae cael iechyd meddwl da yn bwysig i bawb gan ei fod yn hanfodol i iechyd corfforol, perthnasoedd, addysg, hyfforddiant, gwaith a chyflawni potensial.

Gwyddom fod problemau iechyd meddwl yn gyffredin ac yn effeithio ar un ym mhob pedwar ohonom rywbryd yn ein bywydau.

Mae problemau iechyd meddwl fel straen a phryder yn effeithio ar sut rydym yn meddwl, teimlo ac ymddwyn, ac yn achosi anawsterau yn ein bywydau bob dydd; gall gwahanol fath o gymorth helpu gyda'r rhain.

Mae'r term salwch meddwl yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio cyflyrau mwy difrifol ac sy'n para'n hirach, a hwyrach y bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn gwneud diagnosis ac yn darparu triniaeth ar eu cyfer. Gall y cyflyrau hyn gynnwys pethau fel iselder, sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol.

Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo iechyd meddwl da i bawb, yn ogystal â darparu'r gwasanaethau cywir i bobl â salwch meddwl. Mae'n cwmpasu pobl o bobl oed – plant a phobl ifanc, oedolion a phobl hŷn.

Mae tua 50% o salwch meddwl gydol oes yn dechrau erbyn bod yr unigolyn yn 14 oed. Mae plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg uwch o broblemau iechyd meddwl yn cynnwys y rheini sy'n wynebu tor teulu; y rheini yn y System Derbyn Gofal a'r rheini sy'n dangos problemau ymddygiad; plant sydd wedi dioddef trawma. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yw'r enw ar y rhain ac mae 47% o oedolion yng Nghymru wedi dioddef o leiaf un profiad o'r fath yn ystod eu plentyndod. Mae'r profiadau hyn yn achosi niwed hirdymor i iechyd sy'n parhau ar ôl i'r plentyn droi'n oedolyn a phan fydd yn hŷn.

Mae'n bwysig nodi plant mewn perygl o afiechyd meddwl cyn gynted â phosibl, a dylem ganolbwyntio ein hymdrechion ar atal a/neu amddiffyn yn erbyn effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar gyfer rhieni a phlant, yn enwedig yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf o fywyd o'r adeg cenhedlu hyd nes bod y plentyn yn ddwy oed.

Mae'n anodd diffinio cyflyrau iechyd meddwl ymysg plant a phobl ifanc oherwydd gwahaniaethau yn sut mae achosion yn cael eu hadnabod, eu codio a'u cofnodi. Mae gan wahanol asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ddiffiniadau gwahanol o'r geiriau a ddefnyddir mewn perthynas ag iechyd/salwch meddwl a hefyd yn ystyr termau fel 'atal' ac 'ymyrraeth gynnar'. O ganlyniad, amrywiol iawn yw'r data a gesglir yn y maes hwn. Mae hyn yn golygu nad oes digon o ddata i asesu lefel yr angen ar gyfer cyflyrau fel Anhwylder Gorfywiogrwydd a Diffyg Canolbwyntio (ADHD) ac Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD). Mae nifer yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) arbenigol

wedi cynyddu ac mae hyn wedi arwain at amseroedd aros hirach i gael asesiad a thriniaeth, ond eto nid yw'r data'n gyflawn ac felly nid oes gennym amcangyfrif dibynadwy o lefel yr angen am y gwasanaethau hyn.

Cwm Taf sydd â'r lefelau uchaf o salwch meddwl a llesiant gwael ymhlith oedolion yng Nghymru. Mae llawer o bethau mewn bywyd yn gallu achosi iechyd meddwl gwael ymysg oedolion, yn cynnwys arian, peidio â byw'n iach neu ddigwyddiadau a phrofiadau bywyd penodol. Mae yna grwpiau o bobl sy'n fwy tebygol o ddioddef problemau iechyd meddwl, neu salwch meddwl, fel pobl sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, pobl sydd â phroblemau alcohol neu gyffuriau, neu bobl sy'n dioddef mathau eraill i niwed fel trais a chamdriniaeth.

Yn aml, mae gan oedolion â phroblemau iechyd meddwl anghenion cymorth eraill hefyd. Er enghraifft, mae problemau tai yn aml yn cael eu rhoi fel rheswm pan mae person yn cael ei dderbyn neu ei aildderbyn i ofal iechyd meddwl ar gyfer cleifion mewnol. Mae darparu digon o gymorth yn y gymuned ehangach fel tai, cyngor ar ddyled/cyflogaeth a chyfleoedd cymdeithas yn helpu pobl i reoli eu problemau iechyd meddwl a theimlo mewn rheolaeth o'u bywydau.

Mae disgwyl i'n poblogaeth dros 65 oed gynyddu dros yr 20 mlynedd nesaf, gyda'r cynnydd canran mwyaf ymhlith pobl 85 oed a hŷn. Bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn salwch cronig ac yn cael effaith sylweddol ar unigolion, gofalwyr a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn arbennig, bydd nifer y bobl sy'n dioddef o ddementia yn cynyddu.

Ar gyfer pobl hŷn â dementia sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd problem iechyd corfforol, gall eu dementia olygu eu bod yn gorfod aros yn yr ysbyty mwy nag sydd angen oherwydd nad yw'r math cywir o lety/gofal cymdeithasol ar gael o bosibl.

Mae traen o'n poblogaeth hŷn na 65 oed yn byw ar eu pen eu hunain. Gall hyn waethygu llesiant oherwydd unigrwydd cymdeithasol.

Wrth i'r boblogaeth o bobl hŷn gynyddu yn y dyfodol, bydd angen amrywiaeth ehangach o opsiynau tai gofal ychwanegol. Gallai hyn gynnwys tai llai sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, safleoedd i bobl sydd wedi ymddeol, llety gwarchod, a chartrefi gofal er mwyn i bobl hŷn fyw'n annibynnol mewn amgylcheddau sy'n hybu llesiant. Mae'n bwysig bod cymunedau'n dod yn fwy 'ystyriol o oedran', fel bod pobl hŷn yn gallu teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn gallu byw'n annibynnol cyhyd â phosibl. Mae gan y Gymdeithas Alzheimer broses sy'n cydnabod cymunedau sy'n ystyriol o ddementia. Yn ein hardal ni, mae Maerdy, Aberpennar a Phontypridd yn rhan o'r cynllun hwn.

Mae atal salwch meddwl yn dod â llu o fanteision i unigolion, gwasanaethau a'r gymdeithas ehangach. Am lawer o resymau yn cynnwys stigma, mae'n bosibl nad yw pobl â salwch meddwl yn troi at wasanaethau nes bod eu cyflwr yn achosi problemau iddynt neu eu bod wedi cyrraedd y pen. Mae cost trin problemau iechyd meddwl yn uchel iawn o gymharu â phroblemau iechyd eraill hefyd. Mae salwch meddwl yn cyfrif am 20% o gyfanswm baich clefyd, o gymharu â 16.2% ar gyfer clefyd cardiofasgwlaidd a 15.6% ar gyfer canser.

Fel cam cyntaf, mae'n bwysig cefnogi llesiant. Mae cysylltiad rhwng llesiant meddyliol a'r amodau lle mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw yn gweithio ac yn heneiddio. Mae cysylltiad rhwng afiechyd meddwl â diweithdra, llai o addysg, incwm isel yn ogystal ag iechyd corfforol gwael a digwyddiadau anodd mewn bywyd. Felly mae angen i gamau i hyrwyddo llesiant fynd i'r afael â'r strwythurau hanfodol sy'n effeithio ar ein bywydau – addysg, diweithdra, yr economi. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â themâu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae magu hyder a gwydnwch unigolion a chymunedau yn gwella llesiant. Mae pobl wedi dweud wrthym fod ysbryd cymunedol cryf yn ein hardal ac nad ydynt yn hoffi'r label 'difreintiedig' sy'n aml yn cael ei gysylltu â Chwm Taf. Teimlant y dylid gwneud pobl yn fwy ymwybodol o'r pethau cadarnhaol sy'n digwydd drwy'r grwpiau sector gwirfoddol nifer ac mae'r amgylchedd awyr agored hardd yn annwyl iddynt. Mae'r holl bethau hyn yn hyrwyddo llesiant cadarnhaol.

Mae'r iaith a ddefnyddiwn am iechyd meddwl yn achosi dryswch a stigma yn aml. Er enghraifft, mae'r term 'gwasanaethau iechyd meddwl' yn cyfeirio mewn gwirionedd at wasanaethau i bobl sydd â rhyw fath o salwch meddwl yn barod. Mae gwahaniaethau yn y diffiniadau a'r termau fel 'atal' ac 'ymyrraeth gynnar' a ddefnyddir ar draws gwasanaethau. Mae hyn yn ddryslyd i ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn rhwystro gwaith integredig rhwng asiantaethau.

Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau cyllido a meini prawf cymhwysedd gwahanol i bobl allu defnyddio eu gwasanaethau. Lle mae diffiniadau a therminoleg yn amrywio rhwng gwasanaethau, efallai na fydd pobl â salwch meddwl yn bodloni meini prawf cymhwysedd ond bydd ganddynt anghenion gofal a chymorth heb eu diwallu serch hynny.

Mae gwybodaeth a data da yn hanfodol i asesu'r angen am wasanaethau a chynllunio gwasanaethau. Ar gyfer cleientiaid â phroblemau iechyd meddwl/salwch meddwl o bob oedran mae gennym enghreifftiau lle mae data'n brin, neu heb ei gasglu'n dda neu'n gyson. Mae hyn yn gwneud asesu angen a gwasanaethau yn anodd iawn.

Gall y grŵp cleientiaid hwn fod yn derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol neu gymunedol gan fod eu hanghenion yn gymhleth. Er enghraifft, mae cleifion â dementia angen pethau i fod yn gyfarwydd, ond maent wedi dweud wrthym eu bod yn aml yn cael eu 'bownsio' o un gwasanaeth i'r llall, ac mae hyn yn eu cythryblu. Nododd adroddiad diweddar[3] fod peth yn achosi oedi wrth drosglwyddo gofal, yn cynnwys diffyg integreiddio rhwng gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau gofal. Mae mynd i'r afael â hyn yn broblem i'r system sy'n gofyn am weithio effeithiol rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill fel bod defnyddwyr gwasanaethau'n derbyn y gofal cywir.

**Pobl hŷn**

*Gallwch ddarllen mwy am anghenion gofal a chymorth pobl hŷn yng Nghwm Taf yn y Ddogfen Briffio Pobl Hŷn, yn cynnwys rhai enghreifftiau o'r gwaith mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud yn y maes hwn ar hyn o bryd.*

Mae mwy o bobl yn byw'n hirach yng Nghwm Taf. Mae hyn yn beth da ond mae angen i ni sicrhau bod y bobl sy'n heneiddio yn parhau i fwynhau bywyd a bod ganddynt lai o anghenion gofal a chymorth.

Yng Nghwm Taf mae gennym Ddatganiad o Fwriad ar gyfer Pobl Hŷn sy'n nodi sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn bwriadu dylunio a chyflwyno gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn. Mae'r Datganiad o Fwriad yn nodi rhai pethau allweddol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant (anghenion gofal a chymorth) pobl hŷn. Cyfrannodd pobl hŷn at y gwaith hwn ac maent yn bendant eu bod eisiau i sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus drefnu gwasanaethau i gefnogi eu hannibyniaeth a'u helpu i gadw rheolaeth dros eu bywydau.

Mae'n well gan lawer o bobl hŷn allu gwneud hyn gyda chymorth teulu, ffrindiau a'u cymuned ac aros yn eu cartref eu hunain. Heb y rhwydweithiau hyn, mae pethau'n dechrau mynd yn drech ar bobl hŷn, yn enwedig wrth iddynt fynd yn hŷn (80 oed a thu hwnt). Mae'n bwysig bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael y cymorth a roddant yn iawn, nid yn unig ar gyfer yr unigolyn â'r anghenion, ond ar gyfer y bobl sy'n ei gynorthwyo hefyd.

Afraid dweud bod pobl hŷn eisiau cael eu trin â'r un urddas a pharch a gawsant gydol eu hoes, waeth sut maent yn symud o un lle i'r llall, yn cymryd rhan neu'n cyfathrebu

[3] NHS Providers (2015) Right place, right time, better transfers of care: a call to action (saesneg yn unig)

maes o law. Dylai pobl hŷn gael cymaint o lais yn eu bywydau eu hunain a'r gwasanaethau a ddefnyddiant ag unrhyw un arall.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn ystyried bod unrhyw dros ei hanner cant yn berson 'hŷn'. Bydd llawer o bobl hanner can mlwydd oed yn dadlau eu bod yn gymharol ifanc ac na fyddent yn diffinio'u hunain fel pobl hŷn, ond dyma'r oedran y dylai pobl ystyried cynllunio ar gyfer eu pensiwn, ffordd o fyw, rhwydweithiau ac ati yn eu henaint. Mae gwasanaethau cyhoeddus a'u partneriaid yn gallu hyrwyddo ffyrdd o fyw iach yn dda, ond mae angen i ni hefyd wneud yn siŵr bod pobl yn gallu deall a chymryd rhan yn yr hyn sydd ar gael yn eu cymunedau (yn awr a maes o law pan allent fod ei angen).

Mae pobl hŷn, yn enwedig rhai eiddil, yn aml yn dioddef o gyfuniad o broblemau sy'n cael effaith ar y ffordd maent yn cysylltu ag eraill. Gallai hyn fod am eu bod yn cael anhawster cerdded yn ddi-sigl, cofio pethau, neu glywed a gweld yn dda. Mae'r holl bethau hyn yn effeithio ar hyder pobl a'u gallu i fynd yma a thraw a byw eu bywydau.

Wrth gynnal yr Asesiad hwn, dywedodd pobl yng Nghwm Taf yn glir bod teimlo'n unig neu golli cysylltiad â ffrindiau yn gallu cael effaith negyddol iawn ar lesiant ac felly mae angen i ni edrych ar ffyrdd gwahanol o wneud yn siŵr bod pobl hŷn yn cadw mewn cysylltiad â'r pethau sy'n bwysig iddynt a bod cyfleoedd i bobl hŷn aros yn weithgar a chadw cysylltiad.

Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o ddioddef o salwch neu anafiadau a all eu hatal rhag gallu gwneud cymaint drostynt eu hunain. Yn y gorffennol, mae gwasanaethau wedi'u rhoi ar waith i wneud y pethau hynny ar eu rhan, ond rydym yn gwybod erbyn hyn bod pobl hŷn, gyda'r cymorth cywir, yn gallu adennill y gallu i wneud pethau drostynt eu hunain a bod hyn yn helpu pobl i deimlo'n well a chael mwy o reolaeth. Yn y dyfodol, bydd gwasanaethau cyhoeddus a'u partneriaid yn sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i adennill cymaint o annibyniaeth â phosibl, ar ôl anffawd.

Mae salwch neu eiddilwch rhai pobl hŷn yn gofyn am gymorth 'arbenigol'. Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghwm Taf yn cytuno bodd y cymorth hwn yn cael ei ddarparu orau yng nghartref yr unigolyn ei him, oherwydd dyna le mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau bod. Byddwn yn gweithio gyda'r person a'i deulu i sicrhau bod y gofal a'r cymorth yn cael ei deilwra i'w sefyllfa ac yn ategu (ond nid yn disodli) y cymorth maent yn ei gael eisoes gan bobl eraill.

Weithiau, fodd bynnag, os yw rhywun yn sâl iawn, neu os yw eu hanghenion gofal a chymorth yn mynd yn gymhleth iawn, mae'n bosibl y bydd angen iddynt symud i gartref nyrsio (er enghraifft, pobl sy'n dioddef o ddementia). Mae angen i

wasanaethau cyhoeddus sicrhau bod digon o leoedd ar gael i bobl yn lleol a'u bod yn gallu rheoli anghenion gofal a chymorth y grŵp hwn o bobl agored iawn i niwed. Mae angen i ni sicrhau hefyd fod y teuluoedd a'r cysylltiadau sydd gan bobl yn cael cymorth i barhau ble bynnag maent yn byw.

**Anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau**

*Gallwch ddarllen mwy am anghenion gofal a chymorth pobl ag anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau yng Nghwm Taf yn y Ddogen Briffio Anabledd Corfforol a Nam Ar y Synhwyrau, yn cynnwys rhai enghreifftiau o'r gwaith mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud yn y maes hwn ar hyn o bryd.*

Mae pobl ag anableddau corfforol yn gallu ei chael hi'n anodd symud o gwmpas neu gyflawni tasgau bob dydd. Ystyr 'nam ar y synhwyrau' yw problem gyda'r golwg neu'r clyw. Nid oes gan rywun ag anabledd corfforol nam ar y synhwyrau o reidrwydd, ond mae rhai o'r heriau maent yn eu hwynebu yn gallu bod yn debyg.

I lawer o bobl, mae'r byd o'n cwmpas yn gallu bod yn rhwystr i fyw bywyd llawn. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl ag anableddau dysgu neu nam ar y synhwyrau. Fel sefydliadau cyhoeddus, mae angen i ni wneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio'r gwasanaethau maent eu hangen a chyfathrebu amdanynt mewn ffordd sy'n gweddu iddynt.

Mae anghenion gofal a chymorth plant ag anableddau corfforol neu namau ar y synhwyrau yn wahanol iawn i rai oedolion a gallant fod yn gymhleth ac yn anodd i'w cael yn iawn. Yr unig ffordd y gallwn wneud yn siŵr yw cynnwys plant a'u teuluoedd yn yr hyn rydym yn bwriadu rhoi cynnig arno a gofyn iddynt a yw gwasanaethau'n gweithio ai peidio.

Wrth i'n poblogaeth yng Nghwm Taf heneiddio, mae mwy o amser i bobl ddatblygu'r mathau o anghenion sydd angen gwasanaethau gofal a chymorth. Trwy wneud yn siŵr bod pobl a chymunedau yn gallu cymryd yn rhan yn hawdd a helpu i gynorthwyo'u hunain a'i gilydd, mae angen ffyrdd gwahanol y gall pobl ag anableddau corfforol neu namau ar y synhwyrau gael y gofal a'r cymorth maent ei angen. Mae angen i bobl wybod beth yw eu hopsiynau a chymryd rhan.

Bydd gan rai pobl anghenion gofal a chymorth bob amser, oherwydd cyflyrau penodol sydd ganddynt (fel Clefyd Niwronau Motor). Nid oes modd osgoi hyn ac mae'r bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth oherwydd anabledd corffol neu nam

ar y synhwyrau yn fwy tebygol o fod angen gwasanaethau 'arbenigol' i allu byw eu bywydau fel y dymunant.

Er bod angen dull cydgysylltiedig ar draws llawer o'n gwasanaethau, bydd bob amser y bobl hynny sydd angen math penodol o ofal neu gymorth ac mae'n bwysig ein bod ni'n cydnabod hyn ac yn darparu ble mae angen i ni wneud hynny.

Mae'n bwysig iawn bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y rheini sy'n gofalu am bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r rheini sy'n gweithio yn y gwasanaethau hyn yn cael dweud eu dweud. Dyma'r bobl sy'n gwybod orau beth sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae llawer o bobl sydd ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau eisiau'r un pethau â phobl eraill; bod yn annibynnol, bod â rheolaeth dros eu bywydau eu hunain a bod yn rhan o'u cymuned.

**Trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol**

*Gallwch ddarllen mwy am anghenion gofal a chymorth pobl sydd wedi dioddef trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol yng Nghwm Taf yn y Ddogfen Brifio Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol, yn cynnwys rhai enghreifftiau o'r gwaith mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud yn y maes hwn ar hyn o bryd.*

Yn y gorffennol, y sector gwirfoddol (h.y. elusennau) yn hytrach na'r sector statudol (gwasanaethau cyhoeddus) sydd wedi darparu gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl sydd wedi dioddef trais a chamdriniaeth. Fodd bynnag, gallai hyn newid, gan fod deddf newydd wedi'i phasio sy'n datgan bod rhaid i wasanaethau cyhoeddus ddarparu'r math hwn o ofal a chymorth. Cyllid gan Lywodraeth Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a sefydliadau cyllid grant eraill sy'n talu am y rhan fwyaf o'r gwaith hwn. Mae hyn yn golygu nad yw'r gwasanaethau hyn bob amser wedi'u 'cysylltu' â gwasanaethau gofal a chymorth eraill. Mae hyn yn rhyfedd, oherwydd mae tystiolaeth yn dweud wrthym fod pobl sydd wedi dioddef y pethau hyn yn fwy tebygol o fod angen mathau eraill o gymorth. Mae pobl sydd wedi dioddef y pethau hyn yn fwy tebygol o gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol, neu o fod angen cymorth iechyd meddwl.

Yng Nghwm Taf, mae gwasanaethau cyhoeddus yn ysgrifennu strategaeth leol i arwain y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn yr ardal hon a sut rydym yn eu darparu. Mae'r strategaeth leol yn seiliedig ar strategaeth genedlaethol ac mae

ganddi dair thema allweddol; atal y pethau hyn rhag digwydd yn y lle cyntaf, atal y pethau hyn rhag digwydd eto neu waethygu a chynorthwyo pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan y pethau hyn.

Nid yw pobl sydd wedi cael y pethau hyn yn digwydd yn eu bywydau bob amser yn teimlo'n hyderus wrth droi at wasanaethau am gymorth. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod *unrhyw un* sydd angen cymorth yn teimlo eu bod yn gallu gofyn amdano, nid dim ond y bobl y gwyddom amdanynt drwy bethau fel adroddiadau'r Heddlu.

Mae trais a chamdriniaeth yn destun cryn drafod mewn gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch yn ein cymunedau, ond gall y profiadau ofnadwy hyn effeithio ar lesiant ym mhob rhan o fywyd ac mae angen i ni wneud yn siŵr bod y materion yn cael eu trafod yn yr holl fannau priodol a bod gwasanaethau'n dod at ei gilydd yn y ffyrdd cywir i helpu gorau ag y gallant.

Mae profiadau o drais a chamdriniaeth yn gymhleth ac, yn aml, nid ydynt yn cael eu trafod maes o law ar ôl y digwyddiad. Mae angen i ni edrych ar sut rydym ni'n gofyn i bobl sydd wedi cael cymorth gennym beth wnaethom ni'n dda a beth sydd angen i ni ei wneud yn wahanol. Nhw yw'r unig bobl sy'n gwybod sut dylai ein gwasanaethau fod yn darparu gofal a chymorth ac mae angen i ni ei gwneud hi'n hawdd ac yn gysurus iddynt rannu eu barn gyda ni a chael gwrandawiad.

Nid ydym bob amser yn meddwl bod y pethau hyn yn digwydd i ddynion, ond maen nhw ac nid yw ein gwasanaethau wedi'u llunio i gynnig gofal a chymorth i ddynion yn yr un ffordd â menywod. Mae angen i ni gydnabod bod ein cymunedau yn cynnwys gwahanol bobl a gwahanol berthnasoedd a meddwl am sut gallwn gynorthwyo pawb sydd wedi cael profiad o drais neu gamdriniaeth.

Yn yr un modd ag y mae pobl sydd wedi dioddef y pethau hyn yn fwy tebygol o fod ag anghenion gofal a chymorth eraill yn y dyfodol, gallwn feddwl hefyd am y pethau sy'n ei gwneud hi'n fwy tebygol i'r pethau hyn ddigwydd yn y lle cyntaf. Mae plant sy'n gweld neu'n dioddef trais a chamdriniaeth yn fwy tebygol o dyfu i fyny i fod yn dreisgar neu gam-drin. Mae angen i ni edrych ar ein dealltwriaeth ynghylch *pam* mae'r pethau hyn yn digwydd a defnyddio'r ddealltwriaeth i helpu i atal hynny, drwy helpu dioddefwyr, yn enwedig dioddefwyr ifanc, i ymdrin â'r trais neu'r gamdriniaeth. I wneud hyn yn dda, bydd angen i lawer o wasanaethau ddod at ei gilydd i gyfrannu at roi gofal a chymorth.

## GWASANAETHAU SY'N CAEL EU DARPARU YN GYMRAEG

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dweud bod rhaid i sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus ystyried y gwasanaethau gofal a chymorth maent yn eu darparu i siaradwyr Cymraeg. Yn 2016, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg (rôl annibynnol a gafodd ei chreu i gynghori ar, annog a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg) gyfres o Safonau'r Gymraeg; cyfres o reolau y mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus eu dilyn i sicrhau bod pobl y mae'n well ganddynt ddefnyddio Cymraeg a phobl y mae'n well ganddynt ddefnyddio Saesneg yn cael eu trin yr un fath.

Mae ychydig dros 11% o bobl yng Nghwm Taf yn siarad Cymraeg. Mae gallu siarad Cymraeg yn esgor ar lawer o fanteision, yn cynnwys posibiliadau gwaith, perthyn i gymuned a chreu cysylltiadau newydd gyda phobl sy'n siarad yr un iaith. I rai pobl sydd â Chymraeg fel eu mamiaith, mae gallu derbyn y gwasanaethau maent eu hangen drwy'r cyfrwng hwn yn gallu bod yn bwysig iawn i'w llesiant. Er enghraifft, mae pobl sy'n dioddef o ddementia yn gallu dychwelyd at ddefnyddio Cymraeg, yr iaith roeddent yn ei defnyddio yn ystod eu plentyndod. Mae'n bwysig bod y bobl hyn yn gallu cael gwasanaethau yn y ffyrdd sy'n gweddu iddynt orau. Oherwydd y rhesymau hyn, mae angen i ni gael mwy o bobl yn siarad Cymraeg yng Nghwm Taf yn y dyfodol.

Bydd hyn yn golygu bod angen i wasanaethau cyhoeddus allu darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio ar wahân ar nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio mewn gwasanaethau gwahanol. Os ydym yn ystyried cyfuno llawer o rannau eraill o'n gwasanaethau, mae'n gwneud synnwyr y dylem fynd ati gyda'n gilydd i edrych ar sut rydym yn gwneud yn siŵr bod pobl sydd eisiau siarad â ni neu ddefnyddio ein gwasanaethau yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny.

Ar hyn o bryd, nid yw'r wybodaeth sydd gennym am bethau fel nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg neu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg yn ein gwasanaethau yn dda iawn. Mae'r wybodaeth sydd gennym yn dweud wrthym nad oes digon o siaradwyr Cymraeg yn ein gwasanaethau i gyfathrebu â'r rheini sydd ag anghenion gofal a chymorth yn Gymraef a byddwn yn dal ati i weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â hyn.

## Y THEMÂU TROSFWAOL

Mae'r adran hon o'r Asesiad yn bwrw golwg fanylach ar y themâu cyffredin sydd wedi deillio o'n sgyrsiau â'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac yn gweithio ynddynt. Mae'r themâu trosfwaol hyn wedi cael eu crybwyll droeon fel rhai pwysig i

bobl Cwm Taf. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r pethau y mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ei gwneud hi'n ofynnol i wasanaethau cyhoeddus a'u partneriaid eu hystyried wrth ddylunio a darparu gwasanaethau, sy'n galonogol. Mae partneriaid yng Nghwm Taf eisoes wedi dechrau edrych ar lawer o'r themâu a nodir yma ond bydd y canfyddiadau o'n gwaith Asesu yn ein helpu i ganolbwyntio ar yr hyn sydd angen newid fwyaf.

Yn draddodiadol, mae gwasanaethau'n cael eu darparu i bobl yn seiliedig ar ba un bynnag o'r categorïau uchod maent yn perthyn iddo pan maent yn dod i gysylltiad â gwasanaethau cyhoeddus am y tro cyntaf, ond mae'r themâu trosfwaol hyn yn dangos nad oes angen rhannu gwasanaethau fel hyn ym mhob achos. Os gallwn ni ddatrys y problemau mwy cyffredin, bydd hyn yn helpu pobl ym mhob categori ac yn rhoi sylfaen gadarn er mwyn darparu'r gwasanaethau mwy penodol y gallai fod eu hangen arnynt oherwydd eu hamgylchiadau neu gyflwr penodol.

Mae'r themâu trosfwaol yn cysylltu gyda'i gilydd hefyd. Nid achos o edrych ar bob un yn unigol ydyw ond, yn hytrach, edrych arnynt i gyd gyda'i gilydd. Dim ond trwy feddwl am yr *holl* bethau hyn y gallwn ni wneud y gwahaniaeth mwyaf i'n defnyddwyr gwasanaethau.

## Thema drosfwaol: Defnyddio ein Data yn fwy effeithiol

Data yw unrhyw wybodaeth sy'n dweud wrthym am ein gwasanaethau. Gallai fod yn adborth uniongyrchol gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, sut mae'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn teimlo, neu ystadegau, fel nifer y bobl sydd wedi'u defnyddio; yn y bôn, data yw unrhyw ffaith neu ffigur am wasanaeth y gellir ei 'fesur'.

Mae data am y gwasanaethau gofal a chymorth rydym yn eu darparu a'r data rydym yn ei gasglu i roi tystiolaeth i ni o ba mor dda rydym yn cyflawni yn wahanol mewn gwahanol sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus. Nid yw gwasanaethau'n mesur yr un pethau ac nid ydynt bob amser yn gallu rhannu'r data sydd ganddynt gyda'i gilydd y hawdd. Gallai hyn fod oherwydd prosesau neu systemau mewn sefydliadau unigol, neu oherwydd gwybodaeth sensitif.

Rhaid i wasanaethau cyhoeddus sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau i osgoi dyblygu neu wastraffu amser ac ymdrech. Yn aml, mae sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn edrych ar yr hyn sydd ar gael ar wahân, ac nid dyma'r ffordd orau ym mhob achos. Gallem wella ar hyn; er enghraifft, gallem gasglu data unwaith a'i roi mewn un man. Bydd yr amser a fyddai wedi cael ei dreulio yn gweithio

ar yr *un* data mewn sawl man gwahanol yn rhydd i wneud pethau eraill, neu i weithio ar ddata *gwahanol* i ychwanegu at y casgliad a rennir.

Nid yw sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn dewis neu'n gallu rhannu data bob amser ac nid ydynt bob amser yn meddwl y gallant ei rannu gyda gwasanaethau eraill neu'r bobl a'r cymunedau maent yn eu helpu. Mae hyn yn rhwystro gwasanaethau a chymunedau rhag gallu gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae yna ychydig iawn o ddata *na ellir* ei rannu am resymau preifatrwydd, ond nid oes rheswm pam na ellir rhannu llawer o ddata arall nad yw'n cael ei rannu. Byddai hyn yn helpu gwasanaethau i gael gwell dealltwriaeth o'r bobl a'r cymunedau maent yn gweithio gyda nhw ac yn ei gwneud hi'n haws i gyfuno atebion i broblemau.

Ar rai adegau mae aelodau o'r un teulu, sy'n byw o dan yr un to, wedi bod yn defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth gwahanol. Pe bai pob sefydliad yn gallu cael at yr un data, byddent yn gallu gweld mewn chwinciad pa wasanaethau eraill y mae'n bwysig iddynt gysylltu â nhw.

System ddata y bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru yn dechrau ei defnyddio ac yn gallu cael mynediad ati yw System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Mae hyn yn golygu na fydd ond angen cofnodi data yn y system hon unwaith a bydd y gwasanaethau hyn (mewn Cynghorau a Byrddau iechyd) i gyd yn gallu ei weld. Mae hyn yn gam cyntaf cadarnhaol tuag at rannu data yn effeithiol. Yn y dyfodol, byddwn hefyd yn gallu gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth y mae'n rhaid ei chasglu fel mater o drefn erbyn yn fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn cynnwys adborth gan brosesau asesu defnyddwyr gwasanaethau unigol.

Mae angen i ni feddwl hefyd am y data rydym yn ei ddefnyddio i'n helpu i wneud penderfyniadau am ein gwasanaethau. Mae gwybodaeth a data da yn hanfodol i asesu'r angen am wasanaethau a chynllunio gwasanaethau. Mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n casglu'r data cywir a mwyaf defnyddiol.

Yn ogystal â chyfrif faint o bobl sydd wedi defnyddio gwasanaeth, mae angen i ni gasglu data ar ba wahaniaeth mae'r gwasanaeth hwnnw wedi'i wneud. Os nad yw'r pethau roeddem yn bwriadu eu gwneud yn gweithio, neu nad ydynt yn cael yr effaith roeddem wedi'i rhagweld, rydym angen cymorth y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau i ddeall pam. Trwy rannu gwybodaeth yn well a dod o hyd i ffyrdd mwy ystyrlon o fesur llwyddiant, rydym yn fwy tebygol o allu gweithio gyda'n gilydd i greu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl.

**Thema drosfwaol: Gwybodaeth: Dod i wybod mwy am gymorth a gwasanaethau**

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud llawer o waith yn ymwneud â'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a roddant a sut mae pobl yn gallu cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn hawdd ac yn gyflym. Mae'n cynnwys unrhyw beth sy'n gallu helpu pobl neu gymunedau, fel gwybodaeth a gweithgareddau gerllaw, awgrymiadau am sefydliad i gysylltu ag ef i gael help neu rywun yn dod i'w cartref i siarad sut gall gwasanaethau fod o gymorth yn y dyfodol neu i ddarparu cymorth.

Trwy ganolbwyntio ar roi'r math hwn o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael a sut gellir ei ddefnyddio, mae disgwyl y bydd mwy o bobl yn cael cymorth yn gynt ac efallai na fydd angen iddynt droi at wasanaethau 'arbenigol' (gwasanaethau ar gyfer y bobl â'r anghenion mwyaf cymhleth), fel yn y gorffennol. Mae'n rhy gynnar i ddweud a yw hyn yn wir ai peidio, ond mae'r data cynnar yn awgrymu y bydd gweithio yn y ffordd wahanol hon yn cael effaith gadarnhaol. Yn y dyfodol, bydd modd defnyddio'r data a gesglir am y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a roddwn i'n helpu i feddwl am sut rydym yn mynd ati i ddarparu gwasanaethau a'r gwasanaethau sydd eu hangen.

Os yw person neu gymuned eisiau gwneud rhywbeth, cymryd rhan mewn rhywbeth neu gael help, un o'r pethau amlwg a allai eu rhwystro rhag gwneud hyn yw'r ffaith nad ydynt yn gwybod beth sydd ar gael, neu sut mae cymryd rhan. Hwyrach y bydd rhai pobl eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau neu wasanaethau ac mae angen iddynt deimlo'n hyderus bod ganddynt y wybodaeth gywir, neu eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth yn hawdd. Nid yw pobl sy'n defnyddio gwasanaethau na phobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus a'u sefydliadau partner (yn cynnwys y sector gwirfoddol) bob amser yn gwybod ble mae dechrau pan ddaw hi at gael gwybod pa gymorth sydd ar gael.

Mae rhagor o wasanaethau, sefydliadau, gweithgareddau, clybiau, grwpiau, timau, dosbarthiadau a phethau eraill sy'n gallu helpu pobl yn ein cymunedau ar draws Cwm Taf nag ydym ni'n sylweddoli. Mae'r hyn sydd ar gael yn newid drwy'r amser ac mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny gyda'r datblygiadau diweddaraf neu adnabod y pethau sydd fwyaf gwerthfawr i bobl.

Mae sawl ffordd o chwilio am wybodaeth a'i rhannu. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae gwasanaethau cyhoeddus Cwm Taf a'u partneriaid yn cynnwys y sector gwirfoddol wedi dechrau rhoi cymaint â phosibl o wybodaeth ar wefan gyfeiriadur Dewis Cymru. Mae Cyngor Merthyr Tudful[4], Cyngor Rhondda Cynon Taf[5] a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig ar eu

[4] Gwasanaethau Plant Merthyr Tudful; Gwasanaethau i Oedolion Merthyr Tudful

[5] Gwasanaethau Plant Rhondda Cynon Taf; Gwasanaethau Oedolion Rhondda Cynon Taf

gwefannau ac yn eu hadeiladau cyhoeddus (llyfrgelloedd, meddygfeydd teulu, ac ati). Serch hynny, mae llawer i'w wneud o hyd ac mae angen i ni weithio'n galetach i gasglu a rhannu gwybodaeth, safbwyntiau a syniadau yn dda.

Mae angen i ni wybod pa wasanaethau sydd ar gael, wrth gwrs, ond mae angen i ni feddwl hefyd am y *ffyrdd* y caiff gwybodaeth ei rhannu. Y ffordd fwyaf amlwg o wneud hyn yw drwy'r bobl sy'n adnabod yr ardaloedd a beth sy'n digwydd ynddynt. Mae angen i ni weithio gyda phobl sy'n defnyddio ac yn gweithio yn ein gwasanaethau ac yn byw yn ein cymunedau i edrych ar y ffyrdd gorau o sicrhau bod gwybodaeth yn llifo ac yn cyrraedd y bobl iawn. Gellid gwneud hyn mewn ffyrdd nad ydynt wedi eu defnyddio rhyw lawer yn y gorffennol, fel cyfryngau cymdeithasol (Facebook, ac ati).

Yn aml, bydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yn cael gwahanol rannau o'u cymorth gan sefydliadau gwahanol, yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, sefydliadau'r sector gwirfoddol, cwmnïau gofal preifat a gwasanaethau iechyd. Yn aml, mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yn sâl iawn hefyd ac mae'r cymhlethdod ychwanegol o orfod cydgysylltu eu gofal eu hunain ac ail-drodd gwybodaeth droeon yn gallu rhoi straen ychwanegol ar eu llesiant. Mae llawer o'r sefydliadau sy'n cyfrannu at y pecyn gofal a chymorth yn cynnig gwybodaeth, offer, gweithgareddau a gwasanaethau gwahanol ac nid yw bob amser yn hawdd i bobl sy'n derbyn gwasanaethau wybod beth mae ganddynt hawl iddo, beth sydd ar gael a phwy ddylid cysylltu ag ef i'w gael.

Dylai pobl allu rhoi gwybodaeth yn ôl i wasanaethau cyhoeddus hefyd. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn cyfeirio at hyn fel 'llais y dinesydd' a'r nod yw cael pobl i ymwneud â'r gwasanaethau a ddefnyddiant a dweud eu dweud am sut gellid gwella'r gwasanaethau hynny.

Os ydym am gynnwys pobl a chymunedau yn llawn yn y wybodaeth sydd gennym a chael eu barn arni, mae angen i ni wneud yn siŵr eu bod yn deall y wybodaeth. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn aml yn defnyddio iaith gymhleth i ddisgrifio pethau, ac mae hynny'n golygu posibilrwydd o ddryswch rhwng gwasanaethau, neu rwng gwasanaethau a phobl, ynghylch yr hyn rydym yn siarad amdano mewn gwirionedd. Mae angen i'r iaith fod yn glir a syml, fel bod pawb yn deall beth sydd dan sylw.

## Thema drosfwaol: Cysylltiadau

Er ein gwybod beth rydym ei eisiau a sut i'w gael, yr her nesaf yw *gallu* ei gael mewn gwirionedd. Mae'n bosibl na fydd pobl ag anghenion gofal a chymorth yn gallu

cymryd rhan cystal â phobl eraill, er enghraifft, oherwydd sut maent yn symud o gwmpas neu'n cyfathrebu.

Rydym yn sôn llawer am gynllun Cwm Taf (y ffyrdd, y drafnidiaeth, y cefn gwlad) ac nad yw hi bob amser yn hawdd cyrraedd ble rydych chi eisiau cyrraedd, felly mae angen i ni edrych ar ddod â'n gwasanaethau i'r bobl sydd eu hangen mewn ffyrdd gwahanol. Gellid gwneud cysylltiadau hefyd drwy gysylltu â'n gilydd mewn ffyrdd gwahanol, drwy gyfryngau cymdeithasol neu gymunedau ar-lein. Bydd canfod ffyrdd o gysylltu â'n gilydd yn well yn helpu pobl sy'n teimlo'n unig neu ar wahân yn arbennig.

Gwyddom fod y cysylltiadau yn ein cymunedau yn dda a bod angen i ni ddefnyddio'r rhain i'n helpu i greu cysylltiadau cryfach, sy'n ymestyn ymhellach ac yn dod â mwy o bobl at ei gilydd. Mae angen i ni wneud yn siŵr hefyd fod y cysylltiadau rhwng cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus yn gryf a bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn helpu yn y ffyrdd cywir.

Mae Interlink RCT a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (sefydliadau partner allweddol y sector gwirfoddol yng Nghwm Taf) yn arwain gwaith sy'n canolbwyntio ar sut gallwn gefnogi rhwydweithiau cymunedol cryf i sefydlu a gweithio'n dda. Cliciwch yma am yr Adroddiad Adeiladu Gallu Cymunedol 2016.

Mae llawer o bobl yn ein cymunedau, sy'n byw neu'n gweithio ynddynt, yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd, pwy yw pwy a ble i fynd. Mae angen i ni ddod i wybod pwy yw'r bobl hyn a'u cynorthwyo i wneud yr hyn maent yn ei wneud orau; cysylltu pobl â'i gilydd. Ar ôl i'r dolenni cymunedol hyn gael eu sefydlu a'u gwneud yn gadarn, gallant bara blynyddoedd lawer. Trwy ddod at ei gilydd fel hyn, gall cymunedau wneud yn siŵr eu bod yn rhan o'r hyn sy'n cael ei wneud a sut mae'n cael ei wneud yn eu hardal. Mae angen i ni ymelwa ar yr asedau cymunedol sydd eisoes yn bodoli ar draws Cwm Taf a datblygu mwy ohonynt.

Termau gwasanaethau cyhoeddus am hyn yw 'cydlyniant cymunedol' a 'chydnerthedd cymunedol' (sy'n golygu dod â phobl at ei gilydd, pobl yn cyd-dynnu ac yn gallu ymdopi'n fwy effeithiol â'u heriau). Y syniad yw bod llawer o bobl â gwahanol ddiddordebau, gwahanol wybodaeth a sgiliau, a gwahanol farn yn dod at ei gilydd ac yn cydweithio mewn ffyrdd gwahanol ac yn llwyddo i wneud llawer mwy o wahaniaeth na nifer o grwpiau bach, neu unigolion, yn ceisio gwneud gwahaniaeth ar eu pen eu hunain.

**Thema drosfwaol: Cydweithio**

Mae angen i wasanaethau cyhoeddus a'u partneriaid, yn cynnwys sefydliadau'r sector gwirfoddol, weithio gyda'i gilydd i ystyried y brif wybodaeth a'r themâu trosfwaol yn yr Asesiad hwn yn eu gwaith yn y dyfodol. Yng Nghwm Taf, mae rhai o'r cysylltiadau a'r perthnasoedd gwaith hyn yn dda yn barod ac mae pobl yn dod i'r arfer â gweithio ledled y rhanbarth. Mae cysylltiadau ag eraill, yn enwedig y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, yn cael eu hystyried yn bwysig iawn ac mae angen eu cryfhau. Bydd hyn yn sicrhau ein bod ni'n cynnwys pobl a chymunedau Cwm Taf yn ein gwaith hefyd.

Mae cael gwasanaethau gofal a chymorth sy'n cael eu darparu gan wahanol sefydliadau i weithio gyda'i gilydd yn un o egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Y peth mwyaf amlwg y gallwn ei wneud fel sefydliadau yw gwella; yn sicr dyma un o'r pethau sy'n cael y sylw mwyaf. Mae hynny oherwydd, mewn sawl ffordd, mae'n ymddangos yn hawdd. Yn anffodus, nid yw gwasanaethau cyhoeddus bob amser wedi gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig yn y gorffennol ac mae angen i ni newid hyn os ydym am ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth gwell. Weithiau mae angen i ni weithio'n galetach i sicrhau bod synnwyr cyffredin yn dod yn arfer cyffredin. Mae cydweithio yn golygu dechrau cyfathrebu rhwng pobl ac mae'n cynnwys rhannu data, gwybodaeth, adeiladau, cynlluniau, arian a phobl ymysg ei gilydd. Mwya'n byd o adnoddau y gall sefydliadau'r sector cyhoeddus eu rhannu, gorau oll y gallwn gynorthwyo pobl ag anghenion gofal a chymorth lluosog o dan gategorïau gwahanol, fel pobl hŷn â dementia.

Mae gweithio gyda'n gilydd hefyd yn golygu *o fewn* ein sefydliadau. Mae angen i reolwyr a'r bobl sydd allan yn gweithio yn ein cymunedau, yn ogystal â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, fod â'r un ddealltwriaeth o'r hyn mae angen i ni ei wneud a sut i'w wneud.

Gall gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl ag anghenion penodol ganolbwyntio ar ddatblygu eu gwaith nhw, heb feddwl rhyw lawer am sut mae'n cyd-fynd â gwaith gwasanaethau eraill, cysylltiedig. 'Gweithio mewn seilos' yw'r enw am hyn ac mae'n golygu bod pobl sy'n gweithio mewn gwasanaeth yn ystyried yr hyn maent yn ei wneud a sut maent yn ei wneud yn unig, yn hytrach na meddwl am sut gallant fod yn rhan o'r 'darlun mwy' a gwneud gwahaniaeth *cydgysylltiedig* i lesiant pobl a chymunedau yng Nghwm Taf.

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud, felly, yw cynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth mewn ffordd gydgysylltiedig, gan ddysgu o'r enghreifftiau o'r gwasanaethau hynny yng Nghwm Taf sydd wedi'u datblygu fwy nag eraill i wneud hyn. Gallwn edrych yn fanwl ar yr hyn sy'n gweithio, ble mae'n gweithio a sut mae'n

gweithio i'n helpu i ddylunio a darparu gofal a chymorth i lenwi'r 'bylchau' mewn rhai gwasanaethau.

Pan oeddem yn cynnal yr Asesiad Poblogaeth hwn, fe wnaeth llawer o reolwyr a staff o wasanaethau oedolion a phlant yng Nghynghorau Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, yn ogystal â chydweithwyr o lawer o sefydliadau eraill a'r sector gwirfoddol, gymryd rhan a mynegi barn. Buom yn siarad â llawer o bobl sydd eisoes yn defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth ac yn cyfarfod eraill a fydd angen cael dweud eu dweud yn y dyfodol. Mae llawer o wasanaethau a sefydliadau pwysig tu hwnt, fel gwasanaethau addysg, cymdeithasau tai a chwmnïau'r sector preifat, y mae angen i ni sicrhau eu bod yn rhan o'r gwaith a wnawn gan fod ganddynt gyfraniad pwysig i'w wneud at ddiwallu anghenion gofal a chymorth neu ddarparu gwasanaethau ataliol.

Un o'r rhesymau y mae angen i ni weithio'n wahanol gyda'i gilydd yw ceisio gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym rhyngom, yn enwedig pan mae cyllid yn brin. Mae'n gallu bod yn sgwrs anodd rhwng arweinwyr sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus, ond mae angen cyflwyno newidiadau go iawn i'r ffordd rydym yn gwario ein harian gyda'n gilydd. Weithiau bydd angen i ni geisio darbwyllo Llywodraeth Cymru bod angen newid y rheolau ynghylch beth allwn (ac na allwn) wario arian arno.

Gwasanaethau 'arbenigol' yw'r rhai drutaf. Mae angen i ni ystyried cyfuno ein harian i dalu am y pethau drutaf. Ni fydd hyn yn bosibl ym mhob achos, ond lle mae modd gwneud hyn, bydd yn rhyddhau arian i'w wario ar bethau eraill, sy'n gallu helpu rhagor o bobl.

## Thema drosfwaol: Atal problemau cyn iddynt ddechrau, neu waethygu

Dyma egwyddor 'atal' y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Po gynharaf rydym yn gwybod beth yw anghenion gofal a chymorth rhywun ac yn ei helpu i gael y cymorth cywir, po leiaf tebygol yw hi y bydd ei anghenion yn gwaethygu.

Yn aml, bydd pobl ag anghenion gofal a chymorth yn troi at wasanaethau cyhoeddus pan fetha pob dim arall. Bydd llawer o bobl yn cael cymorth neu ofal gan eu teulu, ffrindiau a chymunedau, ac mae hyn fel arfer yn eu galluogi i gadw'u hannibyniaeth ac aros yn eu cartref yn hirach. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cynorthwyo'r bobl sy'n darparu'r cymorth cynnar hwn mewn cartrefi a chymunedau a sicrhau ein bod yn diogelu eu llesiant hwythau hefyd.

Lle mae angen gwasanaethau, mae angen i ni ganolbwyntio ar gael pethau'n iawn o'r dechrau. Mae sawl ffordd o wneud hyn, fel sicrhau bod plant a theuluoedd yn

cael y gofal a’r cymorth cywir a sicrhau bod pobl sydd wedi cael anffawd yn cael help ac anogaeth i gael eu traed danynt (sef ‘ail-alluogi’).

Trwy ddefnyddio dulliau gwahanol o ddarparu gwasanaethau fel mentrau cymunedol, gall gwasanaethau cyhoeddus sicrhau nad yw gwasanaethau ‘arbenigol’ yn cael eu rhoi o dan straen gan y gwaith sydd ganddynt i’w wneud. Bydd hyn yn rhoi gwasanaethau mewn gwell sefyllfa i helpu yn y ffyrdd cywir.

Bydd bob amser adegau pan mae pobl angen gofal a chymorth ac mae’n bwysig bod gwasanaethau o ansawdd da ar gael ar yr adegau hynny. Mae’n bwysig hefyd pan fydd pobl angen defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, eu bod yn cadw rheolaeth dros eu gofal a chymorth. Dylai gwasanaethau cyhoeddus annog cymorth gan deulu a ffrindiau o barhau os oes modd a chefnogi hyn, fel nad yw’r person yn gwbl ddibynnol ar un gwasanaeth.

Mae yna bethau rydym yn gwybod sy’n gweithio os ydym am atal problemau, neu atal problemau rhag gwaethygu. Gallai sicrhau bod gan bobl dai diogel, cynnes a glân olygu eu bod yn gallu aros yno yn hytrach na mynd i’r ysbyty, neu eu bod yn gallu dod adref o’r ysbyty yn gynt. Mae’n bosibl y bydd pobl sydd â rhwydwaith cefnogi da o deulu, ffrindiau a chymdogion yn gallu adnabod eu problemau yn gynharach, neu gael rhagor o gymorth i wella, na phobl sydd ar eu pen eu hunain. Mae llawer o enghreifftiau eraill o hyn ac mae angen i wasanaethau cyhoeddus ddeall beth ydynt, er mwyn adeiladu ar yr hyn sy’n gweithio.

**Thema drosfwaol: Personoli; gwrando ar bobl a’u deall**

Nid oes dau berson ag anghenion gofal a chymorth yn union yr un fath. Dylai pob person sydd angen help gwasanaethau cyhoeddus gael ei drin fel unigolyn, gyda’i faterion, heriau a ffordd o ymdrin â nhw ei hun.

Mae gan y bobl sy’n defnyddio ein gwasanaethau anghenion, ond ni ddylai hynny eu rhwystro rhag byw bywyd da a hapus. Mae teimlo eich bod yn perthyn, gwybod pa ddarpariaeth sydd ar gael a chymryd rhan yn gallu sicrhau hyn. Mae pobl eisiau bod yn rhan o’u gofal a’u cymorth. Bydd pobl yn gwneud hyn mewn ffyrdd tra gwahanol a dylai pawb sydd angen ein help gael gofal neu gymorth mewn ffordd sy’n addas iddynt. Mae angen gwneud i bobl deimlo eu bod yn gallu dweud pan nad yw pethau’n gweithio a’u hannog i weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i benderfynu beth i roi cynnig arno nesaf.

Yr adborth o’n gwaith ymgysylltu oedd bod angen i wasanaethau cyhoeddus ‘weld y person, nid y broblem’. Nid anghenion gofal a chymorth yw’r unig bethau pwysig am berson. Mae gan bob person sy’n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth

feddyliau, safbwyntiau, dymuniadau a syniadau. Mae angen cynorthwyo pobl i adnabod sut gallant fynegi'r rhain a gwella eu llesiant nhw'u hunain. Gall hyn olygu'r gwahaniaeth rhwng bod angen neu ddim bod angen gwasanaethau gofal a chymorth. Yn gyffredinol, mwya'n byd mae pobl yn cyfrannu at reoli eu bywydau, gorau'n byd yw'r canlyniadau.

## CYNNWYS POBL YN YR ASESIAD POBLOGAETH

Trwy ein prosiect 'Deall ein Cymunedau', buom yn siarad â phobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghwm Taf, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus, grwpiau cymunedol ac unrhyw un arall oedd eisiau dweud ei ddweud. Astudiwyd y wybodaeth i ganfod pethau cyffredin roedd pobl yn eu hystyried yn bwysig neu eisiau siarad amdanynt.

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghwm Taf, yn enwedig o ran cynnwys pobl a chymunedau yn y sgwrs yn gynharach ac yn fwy agored, yn wahanol i'r hyn rydym wedi'i wneud yn y gorffennol ac mae wedi cael ei groesawu. Yn ogystal ag ymgysylltu mwy traddodiadol drwy holiaduron papur ac ar-lein, mae amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu arloesol wedi'u cynnal. Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Chwe digwyddiad fforwm 50+ a ddenodd bron i 150 o drigolion lleol;
- Gwybodaeth o Arolwg Viewpoint RhCT a gwblhawyd gan 5,567 o bobl ifanc 11 i 25 oed;
- Mewn cynlluniau chwarae a digwyddiadau'r haf ar gyfer plant a theuluoedd;
- Sesiynau ymgysylltu grŵp ffocws gydag amrywiaeth o grwpiau gwahanol, yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau â nam ar y golwg neu sydd wedi colli golwg, gofalwyr, clwb pobl fyddar, grŵp *young at heart*, fforwm digartrefedd, preswylwyr cartrefi gofal ymysg eraill;

- Sesiynau coffi a chacen ar gyfer oddeutu 30 o bobl ym Merthyr Tudful ac Aberdâr i drafod materion yn ymwneud ag iechyd meddwl;
- Cynnwys 54 o bobl ag anawsterau dysgu mewn fforymau gyda Pobl yn Gyntaf RhCT; a'r
- Prosiect Gwrando Pobl Hŷn, sy'n cynnwys 40 o wrandawyr gwirfoddol yn cynnwys staff o 25 sefydliad gwahanol (o'r trydydd sector, iechyd y cyhoedd, ALlau), sef prosiect lle mae straeon yn cael eu casglu mewn sgwrs un i un neu fel rhan o drafodaeth grŵp.

Rydym yn falch o'r ffyrdd newydd a chyffrous rydym wedi sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl yn gallu dweud eu dweud yn yr Asesiad Poblogaeth hwn ac rydym wedi ysgrifennu am y gwaith rydym wedi'i wneud a'r hyn y dywedodd pobl wrthym mewn mwy o fanyldeb mewn adroddiad ar wahân dolen Adroddiad Ymgysylltu.

Er i ni wneud rhywfaint o gynnydd da iawn o ran gwneud yn siŵr bod pawb sydd eisiau cael dweud ei ddweud yn gallu gwneud hynny, mae rhai 'bylchau' o ran pwy rydym wedi llwyddo i siarad â nhw a phwy sydd wedi gwneud ymdrech i gymryd rhan, dweud wrthym beth sydd angen i ni ei wybod a'n helpu i ddeall peth o'r wybodaeth. Bydd y drafodaeth yn parhau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

## CAMAU NESAF

Mae nifer o gamau nesaf allweddol y bydd angen i wasanaethau cyhoeddus yng Nghwm Taf eu hystyried, a hynny wrth i ni ddechrau symud ymlaen i gam gynllunio'r gwaith hwn a thu hwnt i hynny; pan fyddwn yn mynd ati i weithredu a monitro gwaith cynllunio a gwasanaethau'r dyfodol.

### Beth sydd angen i ni ei ddeall yn well?

Y peth pwysicaf i'w ddeall wrth i ni fwrw ymlaen gyda'r gwaith hwn yw'r ystod a'r lefel o wasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion a llenwi'r bylchau a nodwyd yn yr Asesiad hwn.

Mae llawer o asedau yn bodoli eisoes yng Nghwm Taf (adeiladau, gofodau, gweithgareddau a phobl) y gall gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio ac adeiladu arnynt er mwyn gwella gwasanaethau gofal a chymorth. Mae'n bwysig iawn ein bod ni'n treulio rhywfaint o amser yn deall hyd a lled yr asedau hyn a sut gellir eu defnyddio i newid a gwella gwasanaethau'r dyfodol.

Mae gwasanaethau cyhoeddus a'u partneriaid eisoes yn creu cysylltiadau â'i gilydd i weithio mewn ffyrdd newydd a gwell. Mae'n amhosibl archwilio *pob un* o'r

cysylltiadau neu ddarpar gysylltiadau rhwng ein gwasanaethau yn y ddogfen hon, ond bydd y canlyniadau'n cymell gwasanaethau cyhoeddus i archwilio rhai ohonynt yn fanylach.

Dangosodd yr Asesiad fod llawer o faterion trawsbynciol a chyffredinol, yn enwedig gan fod pobl yn "perthyn" i fwy nag un categori (neu 'thema' fel y nodwyd gan y Ddeddf) a bod ganddynt amrywiaeth o anghenion. Wrth fwrw rhagddi gyda'n cynlluniau bydd hi'n bwysig archwilio'r enghreifftiau hyn o orgyffwrdd a sicrhau dulliau cydgysylltiedig effeithiol. Er enghraifft:

- Bydd angen i'r Datganiad o Fwriad Strategol ar gyfer Anableddau Dysgu gysylltu'r Strategaeth Plant;
- Bydd angen ystyried cymorth i Ofalwyr yng nghyd-destun pob un o'r categorïau gan fod gofalwyr yn gofalu am bobl ag amrywiaeth o anghenion yn ogystal â bod ag anghenion penodol eu hunain;
- Bydd angen datblygu cynlluniau ar gyfer pobl hŷn a chynlluniau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl gyda'i gilydd er mwyn cynorthwyo pobl â dementia yn effeithiol;
- Mae cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng problemau iechyd meddwl, trais domestig a chamddefnyddio sylweddau a'r ffactorau risg mewn perthynas ag anghenion plant a phobl ifanc;
- Mae angen amrywiaeth o wasanaethau ataliol, ynghyd â chapasiti a chydnerthedd cymunedol gwell, sy'n effeithio ar bob grŵp ac sydd angen gwell dealltwriaeth a dull cydgysylltiedig;
- Er bod ffocws sylweddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae ein canfyddiadau wedi pwysleisio pwysigrwydd materion tai a llety yn ogystal â'r cysylltiadau â gwasanaethau eraill fel addysg. Bydd angen i ni adolygu sut mae'r gwasanaethau hyn yn cyfrannu'n effeithiol yn ein hymateb manwl i ganfyddiadau'r Asesiad; ac
- Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi nifer o grwpiau sy'n flaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau integredig ac mae'r grwpiau hyn (Pobl Hŷn, Plant a Phobl Ifanc, Gofalwyr ac Anabledd Dysgu) wedi bod yn ffocws i'r gwaith sydd wedi'i arwain gan Fwrdd Partneriaeth y Ddeddf hyd yma. Fodd bynnag, nid yw'r grwpiau hyn yn cwmpasu rhai o'r meysydd sy'n cael sylw yn yr Asesiad fel Anableddau Corfforol, Nam ar y Synhwyrau, Iechyd Meddwl a Thrais yn erbyn Menywod. Bydd angen i ddeall beth mwy sydd angen i ni ei wneud i

gydweithio mwy gyda grwpiau partneriaeth eraill sydd eisoes yn gweithio yng Nghwm Taf ar rai o'r materion hyn e.e. y Bartneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Bydd y Ddeddf yn ein helpu i newid y ffordd y mae pobl mewn gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r newidiadau hyn yn golygu cymryd 'llamau' yn hytrach na 'chamau'. Rhaid i ni fod yn ddewr a hyderus i gymryd y llamau sydd eu hangen.

## Cynllun Ardal Leol Cwm Taf

Cam nesaf y gwaith yw ysgrifennu'r Cynllun Ardal Leol. Bydd y Cynllun yn nodi'n fanwl beth fydd y Cynghorau a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn ei wneud i wella gwasanaethau gofal a chymorth, drwy edrych ar ganfyddiadau'r Asesiad Poblogaeth hwn a bydd yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2018.

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae hefyd angen i wasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol (erbyn mis Ebrill 2018 hefyd). Bydd y cynllun hwn yn nodi sut mae gwasanaethau cyhoeddus am fynd ati i ymateb i ganfyddiadau'r Asesiad o Lesiant a'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd i wella llesiant yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n hanfodol bod y Cynllun Ardal Leol yn cysylltu â'r Cynllun Llesiant Lleol a chynlluniau a strategaethau corfforol perthnasol eraill.

Mae'n bwysig bod yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn fwy na 'rhestr o bethau i'w gwneud' a'u ticio i ffwrdd. Mae angen i ni benderfynu ar yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud gyda'n gilydd oherwydd mae'n rhoi cyfleoedd gwirioneddol i wasanaethau cyhoeddus a chymunedau Cwm Taf wella llesiant a bywydau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a'u gofalwyr.

## Beth ydym yn ei wybod yn barod?

Mae Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf eisoes yn arwain gwaith pwysig yn ymwneud â'r meysydd dan sylw yn yr Asesiad hwn. Er enghraifft, mae'r canlynol wedi'u cwblhau neu'n dod i derfyn:

- Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn Cwm Taf;
- Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Cwm Taf;
- Datganiad o Fwriad Strategol Cwm Taf ar gyfer Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion ag Anableddau Dysgu a'u teuluoedd; a
- Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Roedd llawer o ganfyddiadau'r Asesiad hwn yn adeiladu ar waith ymgysylltu blaenorol ac yn rhoi rhagor o ddealltwriaeth a safbwyntiau i ni, ac rydym wedi gallu ystyried y rhain wrth gwblhau'r darnau hyn o waith ac wrth i ni roi'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â nhw ar waith. Fodd bynnag, mewn meysydd eraill o wasanaethau, fel y rheini ar gyfer pobl ag anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau, mae'r Asesiad yn fan cychwyn pwysig iawn gan ei fod wedi dangos i ni fod angen gwneud mwy o waith yn lleol er mwyn deall yn well y materion sy'n wynebu gwahanol bobl yng Nghwm Taf sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny a sut mae angen cyflwyno gwasanaethau yn wahanol.

## Monitro ac adolygu

Nid yw'r Asesiad hwn yn dweud popeth sydd angen i ni ei wybod a bydd angen adolygu a diweddaru ein dealltwriaeth o'r anghenion gofal a chymorth yng Nghwm Taf yn y dyfodol.

Mae'r Asesiad hwn yn wahanol i asesiadau eraill o wasanaethau cyhoeddus oherwydd nad 'ciplun' mohono; mae'r gwaith yn barhaus a bydd yr Asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru (unwaith bob pedair blynedd o leiaf) i adlewyrchu cyflwr cyfredol gwasanaethau gofal a chymorth a beth sydd angen ei wneud nesaf. Mae wedi, serch hynny, roi cyfle i ni bennu ac ystyried y sefyllfa gyfredol ac, yn arbennig, beth sy'n bwysig i'n defnyddwyr gwasanaethau a'n trigolion. Bydd hyn yn llywio'r camau gweithredu sydd eu hangen i ymateb i'r Asesiad hwn.

Wrth i ni barhau â'r gwaith hwn, bydd angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cyflwyno dulliau cadarn o fonitro a gwerthuso'r gwaith hwn, er mwyn i ni allu ymateb yn briodol.